**Rhif: WG27622**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

# Parthau Perygl Nitradau yng Nghymru

Adolygiad o'r Ardaloedd Dynodedig a'r Rhaglen Weithredu i fynd i'r afael â Llygredd Nitradau yng Nghymru

Chwefror 2018

OGL © Hawlfraint y Goron Digital ISBN 978-1-78903-093-8

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Dadansoddiad o ymatebion i gwestiynau 1 – 33 | 2 |
| Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr | 34 |

## Cyflwyniad

### Diben yr Ymgynghoriad

Ar 29 Medi 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar yr adolygiad o Barthau Perygl Nitradau yng Nghymru. Nod Cyfarwyddeb Nitradau yr UE (91/676/EEC) yw lleihau llygredd dŵr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol ac i atal unrhyw lygredd yn y dyfodol. Caiff y Gyfarwyddeb ei throsi yng Nghymru gan Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008. Ar ôl cyflwyno'r Gyfarwyddeb yn 1991, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau asesu a dynodi ardaloedd yn Barthau Perygl Nitradau (NVZ) a chreu Rhaglen Weithredu o fesurau i ostwng lefelau'r nitrogen sy'n mynd i mewn i gyrsiau dŵr.

### Cyfnod ymgynghori a dosbarthu

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am gyfnod o 12 wythnos, rhwng 29 Medi 2016 a 23 Rhagfyr 2016. Anfonwyd yr ymgynghoriad at ystod eang o randdeiliaid, a chafodd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

Roedd y ddogfen ymgynghori yn canolbwyntio ar ddynodi NVS ac ar y Rhaglen Weithredu i'w chymhwyso yn yr ardaloedd hyn. Daeth cyfanswm o 256 o ymatebion i law gan unigolion ac amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys 102 o lythyrau unfath. Gwnaeth 54 o ymatebwyr gais am gyfrinachedd. Ac eithrio'r rhai hynny a wnaeth gais am gyfrinachedd, rhestrir enwau'r ymatebwyr yn Atodiad A. Dyma ddadansoddiad o'r ymatebion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad | - 3 |
| Sefydliadau Aelodau Ffermio | - 4 |
| Dinasyddion unigol | - 115 |
| Ffermwyr | - 75 |
| Cymdeithas Genweirwyr | - 25 |
| Cwmnïau Dŵr | - 2 |
| Cadwraeth / Ymddiriedolaethau | - 15 |
| Busnesau | - 17 |

Cyflwynodd rhai o'r ymatebwyr ymatebion "annibynnol", heb ateb y cwestiynau a osodwyd yn y papur ymgynghori. Gwnaed pob ymdrech i gysylltu'r ymatebion â chwestiynau penodol. Mae'r sylwadau nad oeddent yn ateb unrhyw gwestiynau penodol wedi'u hystyried lle y bônt yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd amrywiaeth o wahanol safbwyntiau ac ni chafwyd unrhyw gonsensws neu gytundeb unfrydol.

**Crynodeb o'r ymatebion ymgynghori yn ôl cwestiwn.**

Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 1 A ydych chi'n ffafrio Dewis 1 (parhau â dynodiadau NVZ ar wahân), neu Ddewis 2 (cymhwyso'r Rhaglen Weithredu i ddynodiad NVZ 'Cymru gyfan')?**

Roedd 240 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau ynghylch cwestiwn 1, gan gynnwys 95 o lythyrau unfath. Dywedodd 151 o ymatebwyr eu bod yn ffafrio dewis 2 gan eu bod yn credu na fyddai dewis 1 yn gwneud llawer o ran ymdrin â'r problemau helaeth sy'n deillio o lygredd amaethyddol. Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai dynodiad 'tiriogaeth gyfan' yn fwy teg, yn darparu eglurder i'r diwydiant ffermio ac yn osgoi rhoi rhai ffermwyr dan anfantais gystadleuol.

Dywedodd 36 o ymatebwyr eu bod yn ffafrio dewis 1 am amrywiaeth o resymau –

Nid yw'r math o ffermio a wneir yng Nghymru yn cynhyrchu hylif slyri

Byddai dewis dau yn rhoi beichiau rheoleiddiol amhriodol ar y rhai sy'n rheoli 92% o dir Cymru, yn seiliedig ar y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi mai 8% o'r tir a fyddai wedi'i gynnwys mewn Parthau Perygl Nitradau o dan ddewis un

Ni all ffermwyr yng Nghymru fforddio rhagor o bwysau ariannol neu reoleiddiol ar hyn o bryd, felly nid yw'n ymarferol gorfodi pob tirfeddiannwr yng Nghymru i ymgymryd â'r gwaith beichus hwn pan nad yw'r mwyafrif helaeth ohonynt yn defnyddio ond ychydig iawn o wrtaith nitrogen

Roedd dau ymatebwr yn credu bod diffygion sylweddol wrth gymhwyso'r Rheoliadau hyn a Mesurau'r Rhaglen Weithredu yng Nghymru.

Dywedodd 53 o bobl nad oeddent yn ffafrio unrhyw un o'r dewisiadau. Dywedodd 16 o ymatebwyr eu bod wedi ymateb yn y modd hwn gan nad oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn gyflawn a bod angen casglu rhagor o dystiolaeth a gwneud gwaith monitro ychwanegol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i brofi bod unrhyw fuddion yn deillio o'r Rhaglen Weithredu arfaethedig.

**Cwestiwn 2 A ydych chi'n cytuno bod ffi ad-daladwy o £250 yn swm priodol i'w godi?**

Ymatebodd 200 o bobl i'r cwestiwn hwn. Yn ôl 106 o'r ymatebwyr, ni fyddai angen y ffi hon gyda dull Cymru gyfan, a chynhigiodd dau ymatebwr y dylid codi'r ffi i £500 / £1,250 ad-daladwy i sicrhau bod arf ataliol rhesymol ond cymesur ar waith rhag ffermwyr sy'n dymuno cyflwyno apêl. Cynigiodd un ymatebwr ffi ar sail graddfa symudol yn ôl maint y fferm.

Anghytunodd 62 o bobl â'r cwestiwn hwn gan nodi'r fforddiadwyedd i rai ffermwyr a'r ffenestr amser apelio fer. Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r ffi fod yn unol â phroses apeliadau CAPM - mae apeliadau Cam 1 yn rhad ac am ddim ac mae apêl Cam 2 yn costio £100 ar gyfer apêl ysgrifenedig a £50 am apêl ar lafar.

Cynigiodd un ymatebwr y dylid codi ffi uwch, ond na ddylid ad-dalu ond 75% o unrhyw ffi er mwyn lliniaru'r costau i bwrs y wlad. Roedd ymatebwr arall yn cwestiynu'r rheswm y tu ôl i'r ffi arfaethedig a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gredu mai atal ffermwyr rhag apelio oedd y nod.

Roedd 32 o ymatebwyr yn cytuno â chost y ffi, gan ddweud eu bod yn credu bod y ffi yn deg ac yn rhesymol ond y byddai dull Cymru gyfan yn cael gwared ar yr angen am broses apelio. Awgrymodd un ymatebwr y bydd yn cymell y rhai hynny sy’n cyflwyno apeliadau i roi'r hygrededd priodol i’r broses, a phan fo’r apeliadau hynny yn llwyddiannus caiff y ffi ei had-dalu beth bynnag.

**Cwestiwn 3 A ydych chi’n credu y dylid cynnwys cnydau gorchudd yn y Rhaglen Weithredu?**

CADARNHAOL – dylid eu cynnwys – 165

NEGYDDOL – ni ddylid eu cynnwys – 24

NIWTRAL – dylid eu cynnwys fel mesur gwirfoddol – 31

Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn ystyried y dylai priodoldeb y caeau ar gyfer cnydau âr fod yn brif ystyriaeth, gan nodi na ddylai'r rhai hynny sydd ar lethrau uchel neu dan fygythiad llifogydd a cholli pridd gael eu defnyddio ar gyfer cnydau âr. Cyfeiriodd ymgyngoreion at broblemau a achoswyd gan dyfu India-corn, tatws a chnydau eraill ar gaeau sydd dan fygythiad llifogydd neu ddŵr arwyneb ffo. Cefnogwyd defnyddio cnydau gorchudd ar dir addas i gnydau âr oherwydd y buddion cysylltiedig, sef lleihau’r nitradau a’r ffosffadau a gollir i’r dŵr, atal erydu’r pridd er mwyn diogelu’r adnodd gwerthfawr hwn, a lleihau’r broses siltio.

Codwyd pryderon gan y rhai a gefnogai’r mesur am y sofl nad ydynt yn cynnig digon o amddiffyniad i briddoedd, megis sofl India-corn. Nodwyd y problemau sy’n deillio o dyfu India-corn mewn sawl ymateb. Pwysleisiodd yr ymatebion y dibynadwyedd cemegol sy’n gysylltiedig â’r potensial i adael pridd moel dros y gaeaf, sydd, oherwydd materion ymarferol yn ymwneud â sefydlu cnwd gorchudd, yn arwain at fwy o lygredd nitradau, ffosffadau a phlaleiddiaid, ynghyd â cholli pridd a siltio yn sgil cynhyrchu India-corn. Nododd un ymateb y byddai cael gwared ar y sofl cnydau, a heuwyd yn y gwanwyn, dros y gaeaf yn niweidiol i adar tir ffermio ac na ddylai fod yn rhan o’r gofyniad.

Cafwyd ymatebion gan unigolion sy’n dibynnu ar gyflenwadau dŵr preifat, a oedd yn nodi bod nitradau a ffosffadau yn effeithio’n niweidiol ar ddŵr yfed.

Codwyd pryderon gan y rhai hynny a oedd o blaid ac yn erbyn y cynnig am ymarferoldeb y mesur o ystyried tywydd nodweddiadol Cymru. Er enghraifft, pan fo oedi wrth gynaeafu cnydau, mae llai o botensial ar gyfer sefydlu cnwd gorchudd ac mae mwy o botensial i’r camau niweidio’r amgylchedd. Nododd yr ymgyngoreion y byddai angen i unrhyw gynnig am gnwd gorchudd fod yn seiliedig ar fesurau ymarferol ac y byddai’n rhaid peidio â’i wneud yn ofynnol i ffermwyr sefydlu cnwd gorchudd beth bynnag fo amodau’r tir a’r tywydd. Fel arall, caiff buddion posibl y mesurau eu dileu. Nodwyd hefyd bod y llafur a’r peirianwaith sydd ar gael ar adegau priodol yn gymhlethdod o ran cydymffurfio â’r cynnig.

Roedd llawer o’r rhai hynny nad oeddent yn cytuno â’r cynnig, o’r farn y dylai’r mesur fod yn wirfoddol a dylid ei annog, oherwydd y posibilrwydd i’r rheolau anhyblyg fynnu gweithgareddau a fyddai’n niweidiol i’r amgylchedd.

Roedd nifer o'r rhai a oedd yn erbyn y cynnig o'r farn na ddylid cynnwys y mesur gan nad oedd yn elfen orfodol o'r Gyfarwyddeb Nitradau. Roedd rhai yn teimlo nad oes angen ehangu'r gofynion hyn gan fod cnydau gorchudd eisoes wedi eu cynnwys yn y trefniadau trawsgydymffurfio. Nodwyd hefyd na fyddai nitradau a ffosffadau yn cael eu lleihau yn gyson ar draws y daliadau yr effeithir arnynt, ac felly na fyddai'r mesur efallai yn addas ym mhob achos. Crybwyllwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chymell cyflwyno cnydau gorchudd drwy daliadau gwyrdd o dan Golofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Roedd ymatebwyr yn poeni y byddai'r cynnig i beidio â chaniatáu dewis gorchudd garw yn niweidiol i gynhyrchu tatws gan y byddai'n atal rhew y gaeaf rhag torri'r pridd i lawr cyn plannu, a fyddai'n niweidiol i'r cnwd a gynhyrchir. Cafwyd sylwadau hefyd nad oedd tystiolaeth bod yr asesiad risg gorchudd garw cyfredol sy'n ofynnol o dan trawsgydymffurfio wedi'i dorri, ac felly nad oes rheswm i gefnogi polisi mwy cyfyngol. Credai nifer o ymatebwyr y dylid ystyried darpariaeth ar gyfer cnydau bachu nitrogen.

Nododd un ymatebwr y byddai costau sefydlu cnwd gorchudd, mewn rhai achosion, yn gwneud y cnwd blaenorol yn amhroffidiol. Serch hyn, dywedodd ymatebwr arall, er na ddylid tanbrisio'r costau i'r busnes, bod yna fuddion sylweddol oherwydd y potensial i gynyddu'r cnydau a gynhyrchir o ganlyniad i'r maethynnau a ddelir, y gwelliant o ran ailgylchu maethynnau a'r cynnydd mewn mater organig.

Ystyriwyd y cynnig i fod yn arbennig o niweidiol o ran cynhyrchu tatws. Mae aredig yn y gaeaf yn arfer a ddefnyddir yn eang yn y sector tatws a dadleuwyd bod tatws dan fygythiad mawr pan nad yw'r gwely had wedi'i baratoi'n dda, sy'n effeithio ar y cnwd a gynhyrchir a'i ansawdd. Dywedwyd bod y cynnig yn bygwth yn ddifrifol statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig Tatws Cynnar Sir Benfro, a ddyfarnwyd o dan gynllun enw bwyd wedi'i amddiffyn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r fanyleb yn Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 510/2006 yn disgrifio'r dull cynhyrchu, gan gynnwys sut y caiff y pridd ei baratoi. Mae hyn yn cyfeirio at y gwaith o baratoi'r pridd, sy'n dechrau gydag aredig ym mis Ionawr. Gadewir y cae wedyn i hindreulio er mwyn i'r pridd a drowyd gael torri i lawr. Pan fo tymheredd y pridd yn agosáu at $10^{O}$C, sy'n digwydd fel arfer yn ystod pythefnos olaf mis Chwefror, torrir y pridd ymhellach drwy ogedu â phŵer i'w wneud mor fân ag sy'n bosibl ac yn hawdd ei ddraenio. Mae'r pridd wedyn yn barod i'w blannu.

**Cwestiwn 4 – Os felly, a ydym ni wedi nodi'r amgylchiadau cywir i'w defnyddio?**

CADARNHAOL - 15

NEGYDDOL - 27

NIWTRAL – 12

Pwysleisiodd yr ymatebwyr unwaith eto bwyntiau a nodwyd wrth ateb cwestiwn 4, yn ymwneud â'r problemau wrth sefydlu cnwd gorchudd o fewn yr amserlen a nodwyd yn y cynnig a'r cwmpas ar gyfer diraddiad y pridd, y dŵr ffo a thrwytholchi lle nad yw cyflwr y tir yn addas. Cafodd chwyn a phlâu, yn ogystal â chostau ychwanegol, eu nodi hefyd yn broblemau posibl. Awgrymodd un ymateb y byddai'r costau o sefydlu cnwd gorchudd yn llawer uwch na'r disgwyl ac nad oedd defnyddio hadau rhad yn ddewis realistig yn ymarferol.

Cynigiodd un ymateb nad oes angen mynnu bod sofl yn cael ei dyfu a bod cnydau gorchudd yn cael eu hau, ac eithrio mewn achosion pan fo sofl risg uchel megis India-corn wedi'i sefydlu ar briddoedd sydd â risg mawr o erydu. Nodwyd bod tir â sofl gaeaf yn gollwng llai o nitradau na thir sydd wedi ei hau â chnydau gorchudd neu dir sydd wedi'i hau â chnydau grawn gaeaf. Y rheswm am hyn yw bod y sofl yn cynnwys hadau a chwyn, ac mae cyfran ohonynt yn egino, ac mae'r adfywio naturiol sy'n deillio o hynny yn cymryd nitrogen o'r pridd. Mae pridd moel ar ôl aredig yn aros yn foel gan na all yr hadau egino. Nid yw'r hadau wedi eu claddu ar gael i adar yn ystod y gaeaf ychwaith.

Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod cae ag arwyneb garw (wedi'i aredig) yn rhoi llai o ddŵr ffo na chnwd gorchudd hwyr/wedi methu nad yw'n tyfu'n ddigonol. Dangosodd yr ymatebion hyn bod angen i'r hunanasesiad pridd presennol fod yn rhan o'r broses trawsgydymffurfio er mwyn atal erydu'r pridd, ac mai hwn yw'r dull mwyaf priodol yn yr amgylchiadau hynny.

Roedd rhai yn credu y dylid cael rhagor o gnydau gorchudd sy'n gymwys i'w defnyddio, gan fod rhai cnydau yn well nag eraill wrth atal erydu. Dywedwyd hefyd bod rheoli'r cnwd yn ofalus yn allweddol er mwyn sicrhau ei fod yn cael eu hau a'i ddinistrio ar yr adegau cywir er mwyn cymryd cymaint â phosibl o nitradau o'r tir.

Credai un ymgynghorai bod y cynnig i beidio â chynnwys dewis gorchudd garw yn cymhlethu'r mesur yn ormodol, o'i gymharu â'r rheolau ar gyfer trawsgydymffurfio. Nodwyd bod y dewis o orchudd garw yn angenrheidiol i'r rhai hynny sy'n tyfu tatws cynnar Sir Benfro gan y dadleuwyd bod y cnwd yn well os bydd y tir yn cael ei aredig yn gynnar yn y flwyddyn galendr a'i adael mewn cyflwr garw hyd nes ei fod yn barod i gael ei blannu ym mis Chwefror. Roedd un rhanddeiliaid yn ystyried y byddai'r cyfyngiadau ar ddefnyddio gwrtaith o dan y mesurau a osodir o fewn y Parthau Perygl Nitradau yn peryglu cnwd tatws cynnar Sir Benfro.

Nododd un ymatebwr bod tyfu tatws ac India-corn, yn ogystal â chnydau eraill, mewn mannau anaddas yn achosi llygredd amaethyddol, ac erydu pridd yn arbennig. Roedd India-corn yn peri pryderon mawr i lawer o'r rhai a ymatebodd, oherwydd dŵr ffo arwynebol a cholli pridd, a waethygir wrth ei dyfu mewn ardaloedd amhriodol, megis tir ar osgo. Dywedodd un ymatebwr y byddai'n hoffi gweld sofl India-corn yn cael ei dynnu oddi ar y dewisiadau gan nad yw sofl India-corn yn cynnig gorchudd digonol i'r pridd, gan fod y coesynnau yn rhy bell o'i gilydd a all achosi colled fawr o bridd a nitradau o ganlyniad i lifoedd trostir. Nododd nifer o ymatebwyr na ddylid plannu India-corn mewn ardaloedd â risg uchel a dylid gosod mesurau pellach pan blannir cnwd India-corn, megis hau oddi tanynt a defnyddio aradr gynion, er mwyn lleihau'r perygl o ddŵr ffo ac erydu'r pridd.

Roedd ymgyngoreion yn pryderu am dyfu cnydau aredig ar dir anaddas. Amlygwyd y dylai ffactorau megis topograffeg, dyfrffyrdd, lefelau dŵr ffo presennol ac ardaloedd risg uchel a nodwyd gael eu hasesu o ran pa mor addas ydynt ar gyfer plannu unrhyw gnydau aredig, a hynny er mwyn atal risg uwch o golli maethynnau drwy ddŵr ffo yn uniongyrchol mewn cwrs dŵr, ynghyd â chynnydd mewn symudiad pridd a dyddodiad yn yr afonydd. Nodwyd bod hyn yn effeithio yn niweidiol ar y cyrsiau dŵr sy'n derbyn y dŵr ffo, yn ogystal â'r golled o adnoddau pridd gwerthfawr a llai o gapasiti clustogi gan landir yr afonydd.

Ar y cyfan, roedd safbwyntiau'r ymatebwyr yn awgrymu bod angen mwy o hyblygrwydd i sicrhau na fyddai sefydlu cnydau gorchudd yn arwain at weithgareddau niweidiol er mwyn

ateb y gofyniad, a bod angen mesurau ychwanegol i sicrhau na thyfir cnydau aredig mewn ardaloedd risg uchel.

**Cwestiwn 5 – A yw'r dyddiadau arfaethedig yn briodol? Os nad ydynt, pa ddyddiadau y byddech chi yn eu cynnig?**

CADARNHAOL - 130

NEGYDDOL - 41

NIWTRAL – 11

Dywedodd nifer fawr o'r rhai nad oeddent yn cytuno â'r dyddiadau arfaethedig mai hyblygrwydd i ystyried y tywydd a'r pridd ddylai fod y briff ystyriaeth, ac y gallai ffermio yn ôl y calendr fod yn niweidiol i'r amgylchedd. Nodwyd bod yr amser rhwng cynaeafu a sefydlu'r cnwd nesaf yn hanfodol yn aml iawn o ran cael hadau chwyn, cynffonwellt du a gwirfoddolion i egino a cheisio rheoli'r malwod du â dull mecanyddol.

Dywedodd un ymgynghorai bod aredig yr hydref yn cael ei wneud pan fo'r pridd ar ei gyflwr mwyaf addas, yn gymharol sych, ac ar ôl i unrhyw frigau neu dwf eilaidd gael eu pori, a phan fo lefel trwythiad yn isel ym mhroffil y pridd. Mae gan y sawl sy'n aredig ffenestr amser lawer mwy a gall gynllunio'r gwaith i ddigwydd ar yr adeg pan fo'r pridd ar ei gyflwr mwyaf addas. Mynegwyd y farn y bydd pwysau cynyddol i aredig yn y gwanwyn yn golygu bod aredig yn digwydd ar yr adegau anghywir, ac y bydd hyn yn arwain at ddifrod hirdymor i briddoedd drwy rwbio a chywasgu, gan ychwanegu at y risg o erydu a dŵr ffo. Nodwyd hefyd y bydd gohirio aredig yn cynyddu'r defnydd o blaleiddiaid a lladdwyr llyslau, er mwyn lladd llyslau yn y "bont werdd", er mwyn atal firws corryn melyn y barlys rhag trosglwyddo i gnydau barlys y gwanwyn.

Yn ôl un ymatebwr, byddai monitro'r gydymffurfiaeth â'r cynnig yn anodd. Hefyd, byddai oedi cyn hau cnydau gorchudd oherwydd glaw yr hydref yn achosi problemau ond byddai'n fuddiol cael gwared ar India-corn yn raddol a thyfu cnydau mwy priodol, y gellir eu cynaeafu yn gynharach neu a allent eu hunain atal dŵr ffo.

Awgrymodd tri o'r ymgyngoreion y dylid mabwysiadu'r cynnig rhwng 31 Hydref a 1 Mawrth, ac mae 6 wedi awgrymu bod y dyddiadau arfaethedig yn ymddangos yn briodol.

Dywedodd un ymgynghorai, er nad yw'r dyddiadau'n briodol, gan y dylai'r broses gael ei harwain gan gyflwr y pridd, cynnwys dŵr a thymheredd ac nid dyddiad ar y calendr, dylid gweithredu proses trawsgydymffurfio i osgoi torri'r rheolau.

Credai un ymgynghorai y byddai gadael cnydau gorchudd yn y tir tan 1 Mawrth yn dderbyniol i'r rhan fwyaf o systemau cnydio ond y byddai dyddiad hwyrach yn debygol o achosi problemau i rai ffermwyr a thyfwyr, gan y bydd yn cyfyngu ar eu rhaglenni cnydio. Adroddwyd y byddai angen cynnig i lacio'r rheolau ar gyfer nifer cyfyngedig o gnydau cynnar, megis moron, pan allai fod angen i'r tyfwr baratoi gwelyau had ym mis Chwefror, er mwyn bod yn barod i hau ym mis Mawrth. Ystyriodd yr ymatebwr hwn y byddai angen llacio'r rheolau yn achos cnydau gorchudd alelopathig gan y bydd angen amser ychwanegol, hyd at 6 wythnos, ar ôl cael gwared arnynt cyn bod modd hau'r cnwd nesaf.

Nodwyd materion yn ymwneud â rêp had olew. Pe byddai cnwd rêp had olew yn cael ei gynaeafu ar 28 Gorffennaf, yna yn ôl dyddiadau arfaethedig y cynnig, sef 14 diwrnod a 10 diwrnod, byddai angen hau'r cae erbyn 22 Awst. Ni fyddai'r dyddiad hwnnw yn addas ar gyfer hau gwenith, a byddai'n anymarferol hefyd i lawer o gnydau eraill. Yn hytrach, byddai'n fuddiol llyfnu a rowlio'r cau er mwyn annog egino, gan leihau'r dibynadwyedd ar gemegolion.

Roedd un ymatebwr yn ystyried bod aredig yn gynnar yn y gwanwyn ymarfer derbyniol ac y byddai 1 Chwefror yn ddyddiad mwy priodol ar gyfer cadw caeau sofl. Mae'r cyfnod ar gyfer paratoi gwely had a hau yn gwbl ddibynnol ar y tywydd, ac er y gallai fod gan ffermwyr y bwriad gorau i gadw ato, gallai fod cyfnodau pan na fydd yn bosibl gwneud hyn. Pan fo hynny'n digwydd, dylai tystiolaeth am y tywydd a chyflwr y tir cnwd fod yn ddigonol i allu brofi cydymffurfiaeth.

Credai un ymgynghorai bod cyfuno'r rheolau trawsgydymffurfio â rheolau'r Gyfarwyddeb Nitradau yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi llwyddo i ddarparu mesurau yn effeithiol. Os caiff y dyddiadau arfaethedig eu defnyddio, credir y byddai'r rhan fwyaf o waith aredig yn cael ei wneud gan gontractwyr neu weithwyr wedi eu cyflogi'n llawn amser, yn hytrach na ffermwyr, gan y byddent hwy yn brysur yn plannu cnydau. Byddai hyn yn cynyddu baich gwaith y contractwyr yn ystod y gwanwyn, sy'n adeg pan maent eisoes yn brysur yn taenu slyri ar y tir. Byddai hefyd amddifadu ffermwyr o'r cyfle i ddod i adnabod cae yn dda cyn ei blannu, a byddent yn dod i aredig heb wybod a oes unrhyw fannau bas neu wlyb y byddent wedi'u gweld wrth aredig. Mae aredig synhwyrol ar adegau sych yn ystod misoedd y gaeaf yn caniatáu i unrhyw rew i fynd i mewn i'r pridd a'i hindreulio a lladd y sofl, y chwyn a'r gweddillion cnwd, sy'n ei gwneud yn haws paratoi gwelyau had yn y gwanwyn, gan leihau allyriadau carbon a'r defnydd o blaleiddiaid. Bydd cyfraddau ymdreiddio ar sofl a gafodd eu haredig yn y gaeaf yn uwch na'r sofl fel arall, felly bydd llai o ddŵr ffo a chaiff llai o bridd ei olchi i ffwrdd o'i gymharu â sofl wedi'u cynaeafu. Roedd yr ymgynghorai hwn yn ffafrio peidio ag aredig cyn 1 Rhagfyr, a pheidio ag aredig cyn 1 Mawrth heb asesiad risg llawn.

Roedd un ymatebwr yn awgrymu na ddylai pridd lôm ysgafn gael ei adael yn foel am fwy na dwy neu dair wythnos rhwng mis Hydref a mis Mawrth.

**Cwestiwn 6 – Pa weithredoedd y dylid eu diffinio, yn eich barn chi, i ddangos cydymffurfiaeth â'r gofyniad am gnydau gorchudd?**

RHEOLAU PRESENNOL YN DDIGONOL – 12

RHODDWYD AWGRYMIADAU – 140

NID OES ANGEN CYDYMFFURFIO – 2

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ac Arolygiaeth Wledig Cymru (sy'n rhan o Lywodraeth Cymru) fod yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth gyda'r cynnig.

Cynigiodd nifer o ymatebwyr wahanol ddulliau arolygu gan gynnwys monitro o'r awyr, ac ymweld â'r safleoedd. Ymysg y dulliau ar gyfer dangos cydymffurfiaeth, roedd cofnodion maes, gan gynnwys tystiolaeth o hau, y cnwd sy'n tyfu yn y cae a, phan geir amodau tywydd nad ydynt yn caniatáu i gnwd gael ei dyfu, tystiolaeth o'r sefyllfa honno, naill ai drwy ddyddiadur neu drwy luniau. Pan fo angen, gellid cadw derbynebau i ddangos bod hadau/adnoddau eraill wedi eu prynu, a gallai ffermydd sy'n defnyddio agronomegwyr a/neu

gontractwyr hefyd ofyn iddynt gadw cofnodion. Nodwyd hefyd, pe bai'r cnwd wedi llwyddo i egino, yna byddai modd ei weld. Cynigiodd un ymatebwr gynllun cylchdroi cnydau sy'n dangos y cynigion arfaethedig a'r canlyniadau gwirioneddol.

Awgrymodd rhai ymatebion y dylid cynnwys mecanwaith yn y datganiad blynyddol a'r broses gofyniadau adrodd presennol ar gyfer cynlluniau grant, sy'n galluogi ffermwyr i gyflwyno tystiolaeth o sut y maent wedi cydymffurfio â'r gofyniad am gnydau gorchudd. Er enghraifft, gellid nodi dyddiadau paratoi'r tir fel gwely had, hau'r cnwd gorchudd a'i gynaeafu, yn ogystal â manylion am beth yn union a gafodd ei blannu. Dylid hefyd gynnwys map o'r daliadau fferm sy'n dangos defnydd y tir ym mhob cae a gwybodaeth am y cnwd gorchudd perthnasol.

Credai nifer o ymgyngoreion na ddylid rhoi gwaith papur neu waith gweinyddol ychwanegol i'r cynhyrchwyr. Cyflwynodd un ymgynghorai'r ddadl y dylai gair y tirfeddiannwr fod yn ddigon da, ond gan y byddai hyn yn annhebygol o fod yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru, dylai llyfryn tebyg i'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer trawsgydymffurfio fod yn ddigonol.

Aeth rhai ymatebion ymhellach a chynnig y dylid monitro hefyd ganlyniadau'r mesur a'i wneud yn ofynnol i dirfeddianwyr arddangos bod lefelau'r nitradau yn y caeau âr o dan reolaeth drwy raglen samplu pridd yn defnyddio dadansoddiad gan labordy annibynnol. Gellid creu gwybodaeth am bridd sylfaenol ar gyfer pob cae gyda rhaglen dreigl flynyddol o samplu a dadansoddi, yn gweithio tuag at gyrraedd yr ansawdd pridd gorau ar gyfer y defnydd penodol o'r cae.

Awgrymwyd hefyd ddatrysiadau amgen ar gyfer sicrwydd ansawdd a phartneriaeth. Gallai nod barcud/safon 'Cyfeillgar i Ddŵr' gael ei ddatblygu i'w ddefnyddio yn yr archfarchnadoedd ar gynhyrchion fferm, sy'n dangos bod y dull cynhyrchu yn bodloni'r safonau gofynnol ac nad ydynt yn llygru cyrsiau dŵr. Cynigiwyd hefyd y gellir annog tirfeddianwyr i anelu at ymarfer rheoli tir sydd yn unol â safonau organig Cymdeithas y Pridd.

Awgrymwyd y gellir annog perchnogaeth a chyfrifoldeb drwy fenter Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru sy'n cefnogi Parcmyn Dŵr gwirfoddol i helpu i fonitro'r dalgylchoedd, er enghraifft rhai tebyg i brosiect Citizen Crane yn Crane Valley, gorllewin Llundain. Gellid cynnig gostyngiad i wirfoddolwyr ar eu bil dŵr am gymryd rhan. Cynigiwyd hefyd y gallai Gwirfoddolwr Arolwg Adar y RSPB a Chynghrair y Ffermwyr gael eu hailgyflwyno, sy'n dod â gwirfoddolwyr gwylio adar a thirfeddianwyr at ei gilydd i arolygu caeau gyda'r wawr yn ystod y gwanwyn/gaeaf i ddangos bod cynlluniau i gynyddu bioamrywiaeth mewn caeau cnydau gorchudd yn gweithio.

Ystyriwyd bod rhannu data yn ddull o sefydlu perchnogaeth a chyfrifoldeb ar y cyd, gyda'r awgrym y dylai'r canlyniadau monitro dŵr sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a chanlyniadau cyntaf y samplau, a gymerwyd gan wirfoddolwyr y Fenter Anglers' Riverfly Monitoring, sy'n cael ei chydgysylltu gan y Riverfly Partnership, gael eu hysbysebu yn ehangach a'u gwneud ar gael i bob tirfeddiannwr yn nalgylch yr afon benodol.

Dadleuodd un ymatebwr fod yn rhaid cael adnoddau priodol i sicrhau bod modd monitro cydymffurfiaeth a darpariaeth yn effeithiol. Nododd ymatebwr arall fod yn rhaid i'r Llywodraeth gyllido a sicrhau adnoddau er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru allu cynnal

cyfarfodydd ymgynghorol yn rheolaidd a rhoi cyngor cyson i ffermwyr, yn ogystal â darparu ymweliadau monitro ar fyr rybudd a rhai gwyddonol, os bwriedir i'r mesurau fod yn effeithiol.

**Cwestiwn 7 A ydych chi'n credu bod y rheolau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer storio tail sych da byw yn ddigonol i leihau'r risg o lygredd?**

CADARNHAOL - 79

NEGYDDOL - 117

NIWTRAL – 3

Nododd y rhan fwyaf o ymatebion a ddaeth i law y bydd y rheolau yn lleihau llygredd ond nid yn ei atal, gan fod tomennydd nad ydynt wedi eu gorchuddio yn trwytholchi, ac o ganlyniad yn gollwng llygryddion a maethynnau i'r pridd. Mewn amodau dwrlawn yn ystod cyfnod y gwanwyn-hydref, mae'n anorfod y bydd llygryddion a maethynnau yn cael eu trosglwyddo i ddŵr yn y pridd, a fydd yn arwain at lygredd yn y dŵr arwynebol o ganlyniad i dryddiferiad i ddraeniau tir a ffosydd draenio, ac wedi hynny i nentydd ac afonydd.

Credai un ymatebwr mai tail sych da byw ddylai fod yr unig dail a ganiateir ar ffermydd. Cyflwynodd y ddadl fod angen cael gwared ar slyri'n raddol, oherwydd, er ei fod yn cael ei ystyried yn faetholyn ac yn helpu i gnydau dyfu'n dda, mae hefyd yn cynnwys llawer iawn o gemegion, yn achosi problemau o ran ei storio, a chan ei fod yn hylif mae'n ddrwg-enwog am lifo o gaeau i mewn i bob ffos, nant a chwrs dŵr, gan effeithio'n ddinistriol ar ecoleg yr afonydd a'r dyfrffyrdd.

Gwnaeth ymgynghorai arall gymharu'r gofynion â gofynion mewn diwydiannau eraill, gan fynnu pe byddai busnesau eraill yn gweithredu ymarferion tebyg, y byddent yn cael eu cau, gan awgrymu y dylai'r rheolau fod yn fwy rhagnodol.

Cyflwynwyd enghraifft o broblem lygru gan ymgynghorai a oedd yn dyst i ddigwyddiad llygru yn 2015. Cafodd y broblem ei achosi gan domen fawr (tunelli lawer) o dail, ar dir gwastad, yn agos at fynedfa cae, tuag at ben bryn bach. Dywedodd yr ymgynghorai fod trwytholch yn llifo o'r domen allan o'r cae drwy'r fynedfa ac i mewn i ddraen y ffordd, a oedd ar raddiant sylweddol. Roedd llawer o'r trwytholch brown tywyll yn llifo i ffos y ffordd ac ar draws arwyneb y ffordd, i lawr y bryn (cwymp mewn uchder o ryw ddeng metr) am oddeutu 600 metr ac wedyn i'r afon Syfynwy, Sir Benfro, wrth ryd. Amlygwyd bod yr afon yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a hynny mewn Ardal Cadwraeth Arbennig. Cafodd y broblem llygru ei hadrodd i'r awdurdodau.

Soniodd ymgyngoreion am ddiffygion eraill. Un o'r rhai hynny oedd y dylai rheolau ar gyfer lleoli tomennydd tail ystyried y posibilrwydd i unrhyw ddŵr tail redeg i unrhyw ffos sych, trac ar y cae, draen ffordd, draenio isbridd lleol neu unrhyw lwybr cyfleus arall i ffwrdd o'r domen, a fydd yn niweidio unrhyw gwrs dŵr. Nodwyd hefyd broblemau megis diffyg gorfodi a diffyg cymhelliant, neu resymau i ffermwyr ddiweddaru eu systemau storio slyri. Y teimlad oedd y dylai ffermwyr gael gwybod y bydd eu systemau yn cael eu harchwilio er mwyn profi cydymffurfiaeth ar gyfer y taliadau amaethyddol. Nodwyd y gallai ffermwr fod wedi derbyn taliadau sylweddol ers mwy na 30 mlynedd, ond heb fuddsoddi dim o bosibl mewn systemau trin slyri.

Nododd rhanddeiliad fod yn rhaid i'r rheoliad fod yn briodol a chael ei ddilyn er mwyn bod yn effeithiol. Adroddwyd nad yw'n anghyffredin yn Sir Faesyfed i gael tomennydd tail mewn caeau, gan gynnwys tail dofednod, heb eu gorchuddio, a chyda'r posibilrwydd o lifo i gyrsiau dŵr. Nid yw codau ymarfer da gwirfoddol yn cael eu dilyn yn gyson, felly cynigiwyd bod angen pŵer rheoleiddiol y Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau er mwyn atal llygredd.

Nodwyd nad yw'r rheolau presennol yng Nghymru yn ymwneud â'r cyfnod storio hiraf ar gyfer tomennydd mewn caeau mor llym â rheolau mewn aelod-wladwriaethau eraill. Yng Ngogledd Iwerddon, y cyfnod storio hiraf a ganiateir mewn cae yw 120 diwrnod, ac ni cheir storio tail dofednod mewn cae heb ganiatâd Asiantaeth Amgylcheddol Gogledd Iwerddon. Ceir gwaharddiad hefyd rhag storio unrhyw dail mewn cae o fewn 250 metr i ddyfrdwll a ddefnyddir ar gyfer cyflenwad dŵr i'r cyhoedd neu ar dir sy'n ddyfrlawn, wedi dioddef llifogydd neu'n debygol o ddioddef llifogydd.

Credai un rhanddeiliad y dylid sicrhau mwy o bellter rhwng ardaloedd storio a chyrsiau dŵr. Y rheswm am hynny yw am ei bod yn debygol bod trwytholchi wedi ei amcangyfrif yn rhy isel a byddai'n ffynhonnell barhaus o lygredd, hyd yn oed dan amodau cymharol sych. Gallai lefelau isel mewn afonydd ar y cyd â thrwytholchi parhaus arwain at grynodiad llygryddion uwch na'r hyn a geir drwy drwytholch yn ystod cyfnodau glaw pan fo'r gwanediad yn uwch.

Rhoddwyd enghraifft o swm y tail ar fferm dofednod i ddangos y potensial ar gyfer llygredd nitradau gan gais cynllunio diweddar. Adroddwyd y byddai'r ardal o fewn cyrraedd y llygredd yn cael oddeutu 4741 kg/N/ha y flwyddyn. Gellir cymharu hyn â'r gyfradd a ganiateir fel arfer, na ddylai fod yn uwch na 250 Kg cyfanswm N/ha y flwyddyn.

Derbyniwyd tri ar ddeg o ymatebion a oedd yn cynnig y byddai gweithredu grant cyfalaf ar raddfa fach yn cael gwared ar yr angen i gael storfeydd tail dros dro, wrth i ffermwyr allu fforddio storfeydd tail dan do.

Awgrymwyd gan un ymgynghorai y byddai tail buarth sydd wedi pydru'n dda wedi defnyddio bron yr holl nitrogen a oedd ynddo yn ystod y broses pydru, ac y byddai unrhyw weddillion wedi eu cynnwys ym matrics y gwely. Dywedodd un arall y byddai unrhyw ostyngiad yn y terfyn amser presennol o 12 mis ar gyfer tomennydd tail dros dro mewn caeau yn peryglu biodiogelwch. Gall Basilws Twbercwlosis oroesi mewn tail am hyd at 12 mis, a'r argymhelliad yn y cyfnod hwn yw na ddylid taenu tail o dda byw wedi eu heintio gan dwbercwlosis ar laswelltir a ddefnyddir ar gyfer porfa gan wartheg neu ar gyfer cadwraeth.

Barn rhai ymatebwyr oedd bod trawsgydymffurfio a rheoliadau presennol yn ddigonol ac nad oes tystiolaeth i dangos bod y rheolau sydd eisoes yn bodoli yn effeithio'n andwyol ar afonydd.

Roedd un ymatebwr yn pryderu bod y rheolau ar gyfer tail wedi eu hadolygu yn 2013 a'u bod eisoes yn hir ac yn feichus. Am y rheswm hwn, ac am nad oedd gwaith ymchwil pellach a wnaed ar domennydd tail ar gael ar adeg yr ymgynghoriad, gwrthwynebwyd unrhyw newidiadau ychwanegol. Ynglŷn â'r cynnig i leihau'r cyfnod uchaf o amser y gellir cadw tomen mewn cae ar fferm, teimlir nad yw'r rheolau yn aneglur o ran cadw tomennydd ar gaeau dros dro, a dylai unrhyw newid fod yn gymesur â'r buddion a geir, ac na ddylid

gwneud unrhyw newidiadau heb dystiolaeth wirioneddol nad yw rheoliad presennol yn addas at ei ddiben.

Yn ogystal, cafwyd sylwadau bod yn rhaid i ffermwyr organig adael eu tail buarth i droi’n gompost am hyd at 12 mis i sicrhau ei fod wedi cynhesu’n ddigonol i ddadelfennu cynhwysion y tail, megis hadau. Hefyd, mae angen i dyfwyr tatws gael tail buarth sydd wedi’i gompostio’n dda, nid tail ffres, er mwyn cynhyrchu’n effeithlon.

Yn ôl un ymgynghorai, nid tail sych da byw yw’r prif achos o lygredd ond y ffaith nad yw dŵr diwydiannol yn cael ei oeri a thipio anghyfreithlon, a gofynnodd pam nad eir i’r afael â’r materion hyn. Teimlai ymatebwr arall y dylai tail sych fod yr unig fath o dail ar ffermydd, a dylid gwaredu slyri yn gyflym, a’i wneud yn sylwedd anghyfreithlon, gan ei fod yn cynnwys cemegolion gwenwynig peryglus ac yn llifo allan o gaeau gan lygru afonydd a dyfrffyrdd sy’n achosi effeithiau dinistriol iawn. Amlygwyd bod nwyau slyri wedi lladd 10 o bobl, gan gynnwys plant, yn y DU ac Iwerddon dros y 10 mlynedd diwethaf.

Barn gyffredin y rhai hynny a ymatebodd oedd bod y cyfnod storio 12 mis yn nodi mai mesur dros dro yw storio tail buarth mewn caeau a gallai unrhyw newidiadau yn yr amserlen hon achosi dryswch a beichiau ychwanegol i dirfeddianwyr. Dywedwyd bod y terfyn amser o 12 mis i domen aros yn yr un lleoliad mewn cae yn cyfateb i safonau a osodwyd yn Llawlyfr Trawsgydymffurfio Lloegr ar gyfer 2015, ac felly mae’n cyfateb i safonau perthnasol ac ni ddylid ei newid.

I’r gwrthwyneb, adroddwyd hefyd na ddylai storio tail yn hirdymor mewn caeau gael ei annog fel arfer da. Yn hytrach, dylai fod yn ddewis storio dros dro yn unig yn ystod misoedd y gwanwyn a’r haf gan y bydd lefelau trwytholchi nitradau yn uchel iawn yn ystod cyfnodau o law trwm.

Roedd un rhanddeiliad yn credu bod y rheolau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer tomennydd mewn caeau yn ddigonol ac yn gweithio ar y cyfan, ond na ddylid atal gosod tomennydd yn yr un lle â thomen flaenorol o fewn dwy flynedd. Ystyriwyd bod y ddarpariaeth hon yn llesteirio storio tail yn briodol, gan fod un lleoliad yn aml yn fwy addas ar gyfer storio ac atal llygredd, nag unrhyw ardal arall ar y fferm a allai fod yn cynnig mwy o beryglon. Credwyd bod yna gyfiawnhad dros adolygu’r rheol hwn.

**Cwestiwn 8 – Os na, pa reolau y dylid eu sefydlu yn eich barn chi?**

DIGONOL - 11

AWGRYMIADAU – 149

Roedd yr ymgyngoreion a gredai fod y rheolau presennol yn ddigonol yn dadlau hefyd nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd i ddweud bod y rheolau presennol yn annigonol. Ystyriwyd hefyd fod y rheolau presennol yn ei gwneud yn ddigon clir bod y tomennydd tail yn cael eu hystyried yn fesur dros dro a bod y cyfnod o 12 mis yn briodol.

Cadarnhawyd bod tomennydd tail dros dro mewn caeau yn rhan bwysig o arferion ffermio yng Nghymru. Roedd un rhanddeiliad yn siomedig y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyn i’r profion cae gael eu cwblhau, a chredai fod eisoes ddigon o reolau ar gyfer storio tail sych da byw i leihau’r risg o lygredd.

Amlygwyd nad oes llawer o nitrogen mewn tail sych da byw ac nad oedd tystiolaeth sylweddol ar gael bod tomennydd tail dros dro mewn cae yn peri risg a fyddai'n cyfiawnhau cyflwyno newidiadau. Nodwyd mai ychydig iawn o nitrogen mewn tomennydd tail sy'n cael ei golli drwy drwytholchi. Byddai gwneud gorchuddion yn ofynnol yn effeithio'n niweidiol ar golli drwy allyriadau amonia cryfach. Mae crynodiad nitrogen mewn trwytholch yn lleihau wrth i'r amser storio fynd yn ei flaen, ac er y gall dyddodiad ar domennydd nad ydynt wedi eu gorchuddio gynyddu maint y trwytholch, byddai hefyd yn gwanedu'r trwytholch gan arwain at grynodiadau is fyth (Dewes, 1995).

Yn hytrach na chyflwyno rheolau ychwanegol, cynigiwyd y dylai'r pwyslais fod ar addysgu'r ffermwyr, megis ble i leoli tomennydd mewn caeau a deall y risgiau a'r rhesymau y tu ôl i'r gofynion presennol, yn lle cyflwyno rhagor o gymhlethdod.

Amlygwyd hefyd bod y costau am badiau concrit wedi eu hamcangyfrif yn £256 miliwn ar gyfer Cymru a Lloegr, sy'n golygu costau o oddeutu £30,000 fesul fferm yn Llawlyfr Llygredd Gwasgaredig. Crybwyllwyd y costau ychwanegol ar gyfer gorchuddio storfeydd tail. Awgrymwyd nad yw gofynion ychwanegol yn y maes hwn felly yn cynrychioli gweithred sy'n gost effeithiol ac ni fyddai yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i gefnogi diwydiant ffermio sy'n ddilys yn economaidd.

Codwyd pryderon y byddai rheolau ychwanegol yn arwain at greu llygredd newydd yn lle'r llygredd nitradau, er enghraifft y gofyniad am orchudd. Ystyriwyd nad yw'n glir pa un a fyddai trwytholch yn cael ei gyfrif yn slyri neu'n ddŵr brwnt ac felly sut y byddai'n cael ei reoli. Pe cyflwynir gofyniad newydd i symud y tomennydd yn fwy rheolaidd na bob 12 mis, roedd yna bryderon y byddai rhai ffermydd yn methu â dod o hyd i ddigon o safleoedd priodol. Byddai hefyd posibilrwydd o fwy o ddifrod i strwythur y pridd, oherwydd mwy o symudiadau peiriannau.

Gwnaeth nifer o ymgyngoreion sylwadau y gellir lleihau risg llygredd drwy reoliadau ychwanegol penodol a maint uchaf ar gyfer tomennydd o dail a gofyniad i'w gorchuddio gyda defnydd anathraidd. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod gorchuddio tomennydd tail yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Awgrymodd tri ymgynghorai ar ddeg fod potensial mewn gweithredu grant cyfalaf ar raddfa fach fel y gallai ffermwyr ariannu storfeydd tail wedi eu gorchuddio a fyddai'n lleihau'r angen i storio tail dros dro. Credai dau ymatebwr y dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith ymchwil ar gyfer defnyddio gwelyau cyrs fel system hidlo ar gyfer slyri/dŵr brwnt a dyfeisio systemau gweithredol ar gyfer ffermydd.

Credai rhai ymgyngoreion y dylid ailystyried y pellter o ffrwd, ffynnon, neu ddyfrdwll, a chynigiwyd gan rai bellter o 100 metr neu 75 metr o gwrs yn welliant ar y safonau presennol. Dadleuodd eraill y dylid cadw'r holl dail mewn ardaloedd storio a adeiladir yn briodol sydd wedi eu gorchuddio o bosibl, ac yn cynnwys system dal a chadw unrhyw drwytholch.

Er bod yna reolau yn ymwneud â'r pellter y mae'n rhaid gosod tomennydd cae o gyrsiau dŵr, ffynhonnau, draeniau tir ac ati, roedd rhai ymatebwyr yn credu ei bod yn dal i fod yn bosibl cael problemau gyda lleoliad tomennydd tail gan nad yw ffermwyr yn ymwybodol o

gysylltedd sy'n bodoli. Awgrymwyd y gellir mapio tir i nodi caeau risg uchel a llwybrau llygru i helpu i gael gwared ar y perygl o leoli tomennydd tail mewn caeau.

Cynigiwyd hefyd Rheolau Rhwymo Cyffredinol i gymell gwell reolaeth ar slyri, er mwyn rheoli llygredd gwasgaredig yn well ym maes amaethyddiaeth yn gyffredinol.

**Cwestiwn 9 – A ddylai fod cyfnod gwaharddedig ar gyfer tail buarth?**

CADARNHAOL - 59

NEGYDDOL - 67

MAE'N DIBYNNU – 21

Cytunodd ymgyngoreion a ymatebodd y gall trwytholchi sylweddol o nitradau ddigwydd o dan amgylchiadau'r hydref/gaeaf a dylai cyfnodau gwaharddedig fod yn gymwys ar gyfer tail buarth. Awgrymwyd hefyd y dylid cyflwyno rheolau synnwyr cyffredin i sicrhau bod tail yn cael ei daenu dim ond ar ôl hyn a hyn o ddyddiau sych. Cynigiodd un rhanddeiliad gyfnod gwaharddedig rhwng 15 Hydref a 1 Mawrth ar gyfer Parthau Perygl Nitradau. Awgrymwyd hefyd y dylid cyflwyno tymor gwaharddedig cyffredinol ar gyfer pob math o dail er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ddryswch.

Nododd tri ymatebwr y byddai unrhyw gyfnod gwaharddedig yn effeithio ar eu gallu i ddefnyddio maethynnau gwerthfawr y tail buarth, sy'n rhan bwysig o'r arferion ffermio. Defnyddir tail buarth ar y ffermydd hyn fel gwrtaith ac mae'n cael ei ledaenu ar dir pan fo'r amodau yn addas ac ar gaeau âr ar ôl cynaeafu a chyn aredig.

Dadleuodd un rhanddeiliad fod yr ymgynghoriad yn nodi bod gwaith ymchwil yn dangos bod tail buarth yn risg ar gyfer trwytholchi nitradau, yn arbennig os caiff ei daenu yn yr hydref, ond nid yw'n dangos i ba raddau y mae'r broblem hon yn effeithio yn negyddol ar lefelau nitradau mewn dyfroedd wedi eu llygru. Ac felly roedd yn erbyn y cynnig.

Adroddodd sawl aelod o un sefydliad y gallai defnyddio technolegau slyri, megis gweisg slyri, fod o gymorth i greu tail sychach a gallai hyn liniaru llygredd nitradau. Byddai rhagor o waith ymchwil yn y maes yn cael ei groesawu er mwyn nodi'r arferion a allai helpu i gael hyblygrwydd ar y ffermydd wrth sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau. Dylai mecanwaith sy'n lleihau'r nitradau mewn dŵr ffo ganiatáu i lacio'r rheolau wrth sicrhau cydymffurfiaeth â mesurau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau a datganwyd bod gwaith ymchwil ar Barthau Perygl Nitradau yn hanfodol i'r ddau ochr.

Amlygwyd bod pryderon y gallai contractwyr slyri gael eu gorfodi i leihau lefelau'r staff yn ystod cyfnodau gwaharddedig ac efallai y bydd hyn yn golygu na ellir ateb y galw am wasanaethau o'r fath yn ystod amodau tywydd ffafriol.

Cynigiwyd gan un ymgynghorai y gellir taenu tail ar bob adeg ac eithrio'r diwrnodau gwlypaf oherwydd ei natur fwy trwchus, ac awgrymodd ymgynghorai arall y byddai gan dirfeddianwyr well ddealltwriaeth o'i dir, yn ogystal â gwybodaeth a fyddai'n cefnogi'r prosesau a gynhelir er mwyn osgoi difrod i'r pridd a cholli maethynnau. Felly, byddai gorfodi amserlen a fydd yn cyfyngu'r tirfeddianwyr yn effeithio ar lygredd yn negyddol ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y cymerir risgiau uwch ar naill ochr y cyfnod gwaharddedig, er y gallai'r amodau tywydd fod yn anffafriol.

Nododd nifer fawr o'r rhai hynny sydd yn erbyn cyfnod gwaharddedig ar gyfer tail buarth y byddai ffermio yn dilyn y calendr yn hytrach nag yn ôl yr amodau tywydd a thir yn niweidiol i'r amcan o gynyddu'r defnydd effeithlon o adnoddau. Trafododd un ymatebwr y gallai cyfyngu ar daenu tail buarth gynyddu dibynadwyedd ar wrteithiau artiffisial, sy'n cael eu cynhyrchu drwy broses sy'n defnyddio llawer o ynni ac yn llygru.

Dadleuodd un ymatebwr ei bod yn hollbwysig taenu tail buarth ar y tir pan fo amodau yn ddigon sych drwy gydol y gaeaf er mwyn iddo fod yn fuddiol i'r tir ac i'r cnwd. Nodwyd nad yw'n bosibl taenu tail buarth ar laswelltir ar ôl 1 Mawrth gan na fyddai da byw'n dymuno pori'r glaswellt oherwydd ei flas. Hefyd ni ellir taenu tail buarth ar dir silwair ar ôl 1 Mawrth gan fod hyn yn cynyddu'r risg o salwch, megis salmonela, yn sylweddol, a byddai'n niweidiol i ansawdd unrhyw silwair a wneir.

Rhoddwyd profiad un ffermwr yn enghraifft o paham na ddylid cyflwyno cyfnod gwaharddedig. Adroddwyd bod y tywydd ym mis Hydref a mis Tachwedd eleni yn ddelfrydol ar gyfer taenu, tra y byddai cyfnod gwaharddedig a ddeuai i ben ar 31 Mawrth wedi achosi mwy o ddifrod i'r tir oherwydd yr amodau tywydd ar y pryd. Ystyriwyd y byddai'r gwariant cyfalaf ar gyfer storio ychwanegol yn niweidio'r busnes yn sylweddol a gallai arwain at adael y maes cynhyrchu da byw.

**Cwestiwn 10 – Os felly, a ydym ni wedi nodi yr amgylchiadau cywir pryd y dylid cyflwyno cyfnod gwaharddedig?**

CADARNHAOL - 6

NEGYDDOL - 156

NIWTRAL - 1

Mae'r cyfyngiadau arfaethedig yn gymwys i gnydau âr ar bridd tywodlyd yn unig, a nodwyd gan ymatebwyr i fod yn eithaf cyfyngedig yng Nghymru. Rhoddwyd dan amheuaeth yr honiad yn yr ymgynghoriad bod y risg o drwytholch yn llawer is ar laswelltiroedd, lle mae'r cnwd yn cymryd yn ddigon i leihau'r risg i'r isaf posibl. Dadleuodd sawl ymatebwr ni ellir disgwyl y byddai'r glaswellt yn sugno yn arwyddocaol yn ystod y gaeaf pan fo'r tymheredd yn isel. Ystyriwyd bod gwahanol reolau ar gyfer mathau amrywiol o dail organig a mathau pridd yn rhy gymhleth a chynigiwyd y dylai'r cyfnod gwaharddedig fod yn gymwys ar gyfer pob math o dail organig a phridd.

Dywedodd un rhanddeiliad y dylid annog ffermwyr i fwydo eu cnydau a bioleg y pridd ychydig ac yn gyson, yn hytrach na rhoi meintiau mawr yn ysbeidiol, sef yr hyn y mae'r cyfnod gwaharddedig yn ei annog. Credai llawer o'r ymatebwyr hefyd y byddai defnyddio cyfnodau gwaharddedig yn anymarferol iawn ac yn rhy lym. Cyfeiriwyd at yr effaith ar newid yn yr hinsawdd ar amrywiaethau'r tymhorau a gwnaed sylwadau bod angen dull mwy ymarferol oherwydd hyn. Amlygodd yr un ymgynghorai y gallai'r cyfnod gwaharddedig fod yr unig adeg sydd ar gael i daenu tail buarth ar gnwd a gafodd ei hau yn yr hydref neu'r gaeaf sy'n cael ei dyfu ar dir âr â phridd tywodlyd. Ni fyddai tail buarth yn cael ei daenu ar ôl i'r cnwd gael ei blannu a hwn oedd y rheswm dros wrthod y cynnig. Er y cafodd y cynnig ei wrthod, ystyriwyd bod yna eithriad pan fyddai'n angenrheidiol hau cnwd i sugno'r maethynnau pe byddai'r cynnig yn cael ei fabwysiadu.

Fel yng nghwestiwn 9, rhoddwyd enghraifft o amodau tywydd i ddangos pam y byddai'r mesur yn anymarferol. Nodwyd bod hydref 2016 yn enghraifft berffaith o pam y mae'r dull hwn o ddefnyddio dyddiadau pendant yn amhriodol. Roedd yr hydref yn gynnes heb lawer o law, a arweiniodd at dymheredd uchel yn y pridd, gwair rhagorol a thwf cnydau a blannwyd yn yr hydref â llawer o faethynnau o'r holl deiliau organig tan ddiwedd mis Hydref ac ym mis Tachwedd.

Cafwyd ymateb hefyd gan fusnes dofednod. Ystyriwyd bod y cyfnod gwaharddedig arfaethedig ar gyfer taenu tail buarth, neu dail ieir yn yr achos hwn, rhwng mis Hydref a mis Ebrill yn drychinebus ar gyfer y fferm hon am ddau reswm. Caiff tail dofednod ei daenu pryd bynnag y mae amodau'r tywydd a'r ddaear yn caniatáu am hynny. Yn ystod yr hydref hwn, roedd pythefnos olaf mis Medi yn wlyb ac ni fyddai amodau'r ddaear wedi bod yn addas. Fodd bynnag, roedd mis Hydref yn fis da iawn ar gyfer trin y tir hydrefol, drilio, ac ati, ac roedd amodau'r ddaear yn rhagorol ar gyfer taenu gwrtaith ar laswelltir a thir âr i'w ddrilio. Caiff llawer o dail dofednod ei werthu i ffwrdd o'r fferm a chaiff ei aredig yn y pridd cyn drilio yn aml ar gyfer corn yn y gwanwyn. Pan fydd gwanwyn cynnar da, byddai 1 Ebrill yn rhy hwyr i ni ei ddefnyddio yn y modd hwn.

Ceisiodd un rhanddeiliad esboniad o'r rhesymau dros yr amrywio rhwng y cyfnod gwaharddedig a awgrymir, sef 1 Awst hyd 30 Medi, a'r un sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon, sef 31 Hydref hyd 31 Ionawr.

Roedd barn bod faint o ddeddfwriaeth sydd ei hangen i atal ychydig iawn o dail rhag cael ei wasgaru, yn anghymesur. Yng Nghymru, dadleuwyd, ni fydd llawer iawn o dir tywodlyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu âr. Mae defnydd tail buarth yn ffynhonnell bwysig o ddeunydd organig, i wella strwythur y pridd, ac yn ffynhonnell o wrtaith ar gyfer y cnwd wedi hynny.

**Cwestiwn 11 – A ddylai cyfnod gwaharddedig fod yn berthnasol i'r holl wrteithiau organig eraill?**

CADARNHAOL - 18

NEGYDDOL – 165

Codwyd cymhlethdod y rheoliadau ynglŷn â chyfnodau gwaharddedig. Mae'r holl gwestiynau blaenorol yn ymwneud â thail buarth. Ceir cyfnodau gwaharddedig eisoes o dan y rheoliadau presennol ac mae'r cyfnodau hyn yn cyfeirio at dail organig ac anorganig. Mae'r cyfnod gwaharddedig presennol ar gyfer gwrtaith anorganig ar laswelltir (15 Medi hyd 15 Ionawr) yn rhesymol ac eithrio yn achos cnydau a gaiff eu hau yn y gaeaf ar dir âr pan fo angen rhywfaint o wrtaith er mwyn iddynt ymsefydlu, a gallai'r hau ddigwydd ymhell ar ôl 1 Medi. Un ateb a gynigiwyd fyddai symud dyddiad dechrau'r ddau gyfnod i 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn.

O ran gwrtaith organig, yn enwedig nitrogen, y cyfnodau gwaharddedig ar laswelltir yw 15 Hydref hyd 31 Ionawr, ac 1 Hydref hyd 31 Ionawr ar dir âr ar gyfer priddoedd trymion. Awgrymwyd bod dadleuon cryf dros ddiwygio hyn yn Sir Benfro oherwydd yr hinsawdd leol i 15 Tachwedd hyd 31 Ionawr ar gyfer glaswelltir a 1 Tachwedd hyd 31 Ionawr ar dir âr. Mae hefyd cyfyngiadau penodol eraill ar gyfer priddoedd tywodlyd neu fas.

Ystyriwyd bod Sir Benfro mewn sefyllfa arbennig o fanteisiol, oherwydd ar amryw gyfnodau yn ystod yr hydref a’r gaeaf, mae amodau’r ddaear a’r tywydd yn caniatáu ar gyfer taenu gwrteithiau organig, yn arbennig ar dir pori. Dadleuwyd bod angen rhoi ystyriaeth fanwl iawn i’r cwestiwn ynglŷn â chyfnodau gwaharddedig yng nghyd-destun ardal bwysig Sir Benfro o fewn y Parth Perygl Nitradau, yn ogystal ag ystyried y gallu i ganiatáu ar gyfer amodau tywydd eithriadol, ac mae 2016 yn enghraifft dda iawn o hyn.

Dywedodd un rhanddeiliad fod yr ymgynghoriad yn aneglur pa un a oedd y rheolau yn ymdrin â risg wirioneddol neu ddamcaniaethol. Gwnaed y pwynt nad yw rheoli risg ddamcaniaethol trwy gyflwyno dyddiadau penodedig yn ddull effeithiol oherwydd bod y risg wirioneddol i ddyfroedd yn dibynnu ar amodau gwirioneddol y caeau. Pe byddai amodau yn amrywio o’r rhai arferol a ddefnyddir wrth lunio’r rheolau, gallai fod mwy o risg o drwytholchi yn ystod y dyddiau a’r wythnosau ar ôl diwedd y cyfnod gwaharddedig. Ffafriwyd y dewis amgen, sef caniatáu i ffermwyr wneud penderfyniadau ar sail amodau’r tywydd a’r ddaear, yn hytrach na chyfnodau gwaharddedig.

Mewn un ymateb, nodwyd bod Cynlluniau Gwarant Fferm gwirfoddol ar gael ar gyfer dros 75% o arwynebedd tir Cymru a bod y rhain yn cynnwys arolygon cydymffurfio bob 12-18 mis a gofynion clir ar reoli tail, maethynnau a phlaleiddiaid a’r Gwasanaethau Cyswllt Ffermio. Nododd yr ymateb y siom bod y cyngor technegol sydd ar gael i ffermwyr a chanddynt ofynion cynlluniau busnes ar waith, wedi’i gyfyngu o dan y rhaglen Cyswllt Ffermio bresennol, a’r gred yw bod hyn yn rhwystr sylweddol i ffermwyr rhag manteisio ar gymhorthdal cynllunio rheolaeth maethynnau. Argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddileu’r gofyniad cynllunio busnes ar unwaith.

Roedd yr un rhanddeiliad yn pryderu am y canlyniadau negyddol anfwriadol yn sgil cyflwyno rheolau mympwyol nad ydynt yn hyrwyddo dealltwriaeth o’r defnydd gorau o dail. Rhoddwyd yr enghraifft, pan ddefnyddir tail buarth yn rhy hwyr, mae’n bosibl na fydd yn bodloni gofynion cnydau mewn pryd, yn enwedig pan ddaw’r tail o systemau tai sy’n defnyddio llawer o sarn â llawer o garbon ynddo (e.e. gwellt grawn), a gallai hyn arwain at effaith andwyol ar gynnyrch y cnydau ac felly colledion trwytholchi, ond ar wahanol adeg o’r flwyddyn. Byddai cyflwyno cyfnod gwaharddedig ar gyfer tail buarth yn effeithio ar allu ffermwyr i ddefnyddio deunydd organig ar y priddoedd hynny lle mae angen dirfawr amdano. Nodwyd canlyniad anfwriadol posibl o annog taenu ar gyfradd uwch ar ddiwedd y cyfnod gwaharddedig, a gofynnwyd am esboniad o’r sail wyddonol i’r dyddiadau.

O ran y cwestiwn penodol, deallwyd bod y cyfeiriad at yr holl wrteithiau organig eraill yn sôn am unrhyw ddeunydd organig nad yw’n dail a ddefnyddir fel gwrtaith. Gwrthwynebodd ymatebwr i egwyddor cyfnodau gwaharddedig oherwydd llai o hyblygrwydd i addasu i amodau’r safle. Mynegwyd barn na fyddai ymestyn y rheolau mewn unrhyw fodd yn arwain at well cydnerthedd busnes neu amgylcheddol. Dadleuwyd bod darparu hyblygrwydd yn lleihau’r risg o ledaenu yn y tir yn ystod amodau tywydd neu ddaear andwyol, ac felly’n lleihau’r risg o lygredd amgylcheddol.

Dywedodd un mewn ymateb i’r ymgynghoriad y dylai’r cyfnod gwaharddedig fod yn berthnasol i’r holl wrteithiau organig ond dim ond pan fo mwy na 30% o gyfanswm y cynnwys nitrogen ar gael i’r cnwd ar adeg taenu.

**Cwestiwn 12 – A ydych chi'n cytuno â'r cynnydd i werthoedd safonau effeithlonrwydd nitrogen a ddefnyddir yn Nmax neu a ddylen nhw aros fel ag y maen nhw?**

CADARNHAOL - 133

NEGYDDOL - 59

NIWTRAL/ANSICR – 11

Mynegodd sawl un a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu gwrthwynebiad i'r newidiadau i'r gwerthoedd effeithlonrwydd, gan nodi y dylent aros yn sefydlog oherwydd faint o amrywio sydd yn y modd y mae gwahanol ffermydd yn defnyddio slyri. Hefyd, dywedodd un rhanddeiliad fod defnyddio un ymagwedd i bawb yn rhy gyffredinol ac nad oedd yn berthnasol i'r byd go iawn.

Profiad un ymatebwr oedd bod diffyg dealltwriaeth o ddefnydd ymarferol o'r cyfernodau tail yn rhan o fesurau'r Rhaglen Weithredu, a bod ychydig iawn o bwyslais ar eu gweithredu. Gwnaethant awgrymu na ddylid addasu'r cyfernodau ar y cam hwn, yn hytrach, dylid darparu rhagor o gyngor ar y gofynion presennol i reolwyr tir. Hefyd, dylid rhoi mwy o bwyslais ar hyrwyddo prosesau mesur maethynnau slyri a gwrteithiau organig eraill y gellir eu gwneud yn hawdd, yn gywir ac yn economaidd wrth gyflawni gweithgareddau taenu arferol.

Nid oedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod cyfiawnhad dros gymharu gwerthoedd yng Nghymru ag aelod-wladwriaethau eraill yr UE, oherwydd bod rhai aelod-wladwriaethau yn defnyddio gwerthoedd uwch, eraill yn defnyddio ffigurau is, a bod un ar ddeg o aelod-wladwriaethau nad ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i effeithlonrwydd tail-N yn eu Rhaglenni Gweithredu Nitrogen o gwbl.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd cynigion wedi'u hamlinellu'n ddigon manwl a bod diffyg tystiolaeth i gyfiawnhau unrhyw newid. Awgrymwyd hefyd y byddai unrhyw newid yn arwain at ragor o ddryswch a diffyg cydymffurfio anfwriadol. Roedd rhywfaint o bryder y gellid cyflwyno cosbau ar draws materion cydymffurfio yn yr achosion hyn ac y gallai gwerthoedd uwch arwain at ostyngiad mewn stoc ar dir, a allai arwain at effaith fwy fyth ar broffidioldeb a hyfywedd ffermydd.

Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr bod yna gyfiawnhad i'r newidiadau os ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth wyddonol gadarn. Ymhlith y rhesymau dros gytuno oedd y potensial i leihau faint o slyri a gaiff ei daenu ar unrhyw hectar penodol. Codwyd pwysigrwydd darparu gwerthoedd effeithlonrwydd nitrogen tail sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth ddiweddaraf, oherwydd eu bod yn dylanwadu'n gryf ar y gwerth a roddir i dail da byw o ran faint o nitrogen sydd ar gael i'r cnydau o fewn cynlluniau gwrteithio a rheoli maethynnau.

Cododd un ymgynghorai bwysigrwydd yr angen i ddefnyddio maethynnau yn well, ac y dylai hwn gysylltu â chanlyniadau gwaith ymchwil a wnaed yng Nghymru a'r DU. Dywedodd ymatebwr arall y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar bwysigrwydd gwrtaith organig yn y Rhaglen Weithredu i gydnabod y caiff y nitrogen o dail organig ei ryddhau ar gyfradd rhyddhau sefydlog ac arafach o'i chymharu â gwrteithiau a weithgynhyrchwyd, a bod cynnwys

nitrogen tail dofednod yn arbennig o isel mewn ffigurau presennol, a gallai hyn gyfrannu at lygredd Nitrogen pan gaiff ei ddefnyddio'n wael.

Cred un ymgynghorai y dylai'r gwerthoedd fod o leiaf yn gyfartalog o'u cymharu â gwledydd eraill yn Ewrop, ac o leiaf yn gyson â Lloegr. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y dylai safonau yng Nghymru fod yn uchel er mwyn sicrhau amgylchedd glân ac y dylai gymharu â gwledydd mynyddog arweiniol yn Ewrop, megis y Swistir, Awstria, Bafaria a Norwy. Cyflwynwyd dadl na ddylai Cymru anelu at y safonau amgylcheddol lleiaf.

**Cwestiwn 13 – Pa bryderon neu fuddion y gellir eu codi yn sgil cynyddu'r gwerthoedd?**

DRYSWCH - 23

BUDDIOL - 126

DIM BUDD - 11

ARALL - 16

Nododd y mwyafrif o ymatebion mai buddion cynyddu'r gwerthoedd cyfernod yw lleihau faint o wrtaith organig fydd yn cael ei ddefnyddio ac y byddai hyn yn lleihau'r risg o golli maethynnau. Ystyriwyd bod cynyddu'r gwerthoedd yn hybu arfer gorau ac yn darparu rhagor o anogaeth i ffermwyr sicrhau y caiff eu slyri ei ddadansoddi er mwyn gallu cyfrifo mewnbynnau nitrogen yn fwy cywir.

Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y bydd cynyddu'r gwerthoedd yn caniatáu am gyfrannu mwy o nitrogen o dail organig wrth geisio bodloni gofynion cnydau, a byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i ailddefnyddio adnoddau ar y fferm yn fwy effeithlon. Byddai hyn, yn ei dro, yn lleihau ac yn gwrthbwyso'r angen i brynu a defnyddio gwrteithiau cemegol. Byddai'r ffaith fod angen llai o wrteithiau nitrogen sydd wedi'u gweithgynhyrchu yn cyfrannu hefyd at leihau'r risg o ddefnyddio gormod ar y tir a'r maeth a gaiff ei golli a'r dŵr ffo yn sgil hynny. Yn ôl ymatebwr arall, gan mai'r budd mwyaf fyddai lleihau'r ddibyniaeth ar wrteithiau artiffisial, dylai gwerthoedd uwch arwain at well gwerthfawrogiad o wir gwerth tail a slyri, a fydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella cyflwr y pridd. Cyfeiriodd un ymatebwr at yr angen i hybu defnydd effeithlon o faethynnau tail ac i hybu technolegau profi'r pridd.

Codwyd pryderon gan y rhai sy'n gwrthwynebu unrhyw gynnydd i'r gwerthoedd effeithlonrwydd nitrogen ynglŷn â'r dryswch y gall hyn ei beri, a allai arwain at ddiffyg rheoli maethynnau. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai'n fwy cynhyrchiol i orfodi'r rheolau presennol er mwyn sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â nhw cyn codi'r targed yn uwch, yn arbennig gan fod yr elfen hon o'r rheoliadau yn gymhleth. Nododd eraill hefyd fod diffyg gorfodi'r rheoliadau yn broblem y mae angen ei datrys. Cyfeiriwyd at y cyngor a roddir yn y llyfryn gwrtaith RB209 a'r cyngor sydd ar gael gan agronomegwyr cymwysedig FACTS. Dywedwyd y dylai'r dull gael ei lywio gan wyddoniaeth, trwy ddefnyddio profion maethynnau pridd nitrogen er mwyn pennu'r gofynion nitrogen optimwm ar gyfer cnydau. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd un ymatebwr na fydd pob slyri yn cynnwys yr un lefelau nitrogen, gan

ddefnyddio'r enghraifft y byddai lefelau uwch o nitrogen mewn slyri buchod llaeth nag mewn slyri buchod sugno ac y byddai'n dibynnu ar faint o ddŵr sydd ynddo.

Atebodd un rhanddeiliad y gellid datrys unrhyw ddryswch trwy gynnig digon o arweiniad a chyfathrebu. Awgrymwyd hefyd y gallai unrhyw gynnydd i'r gwerthoedd effeithlonrwydd arwain at dybiaeth obeithiol o ran defnydd Nitrogen, gan arwain at Nitrogen sydd heb ei ddefnyddio yn halogi'r pridd/dŵr daear.

Nododd nifer o'r ymatebwyr fod costau storio yn anhawster arbennig. Byddai cynyddu'r gwerthoedd safonol yn lleihau faint o slyri/tail y gellir ei ddefnyddio ar y tir. Gallai hyn arwain at orfod cynyddu capasiti systemau storio slyri i storio slyri a fyddai wedi'i ddefnyddio ar y tir yn flaenorol. Byddai darparu'r capasiti storio ychwanegol hyn yn ddrud i fusnesau unigol a'r diwydiant cyfan. Gallai orfodi busnesau i benderfynu peidio â chadw gwartheg, a byddai hyn yn fwy niweidiol i'r economi wledig ac amaethyddiaeth Cymru. Roedd un rhanddeiliad yn pryderu pe byddai gwahanol werthoedd effeithlonrwydd rhwng Cymru a Lloegr, byddai llawer o ddryswch i fusnesau â thir mewn Parthau Perygl Nitradau. Hefyd, roedd un ymatebwr o'r farn y byddai newid y gwerthoedd yn lleihau cyfraddau stocio, a fydd yn arwain at ostyngiad yn yr allbwn.

Roedd un ymateb yn feirniadol bod y diffyg gwybodaeth a diffyg Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y broses ymgynghori yn golygu nad oedd unrhyw fuddion amlwg.

**Cwestiwn 14 – Os ydych o'r farn y dylid cynyddu'r gwerthoedd, pa werthoedd y dylid eu defnyddio?**

DIM NEWID - 20

SEILIO AR DYSTIOLAETH WYDDONOL - 121

GWAHANOL AR GYFER POB FFERM - 3

Ni awgrymwyd unrhyw werthoedd penodol gan y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o ymatebion yn cytuno y dylid seilio'r ffigurau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac roedd ugain o'r farn na ddylen nhw newid o gwbl. Roedd dau ymatebwr o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i bennu pa un a oedd angen cynnydd ai peidio, ac, os felly, pa werthoedd y dylid eu defnyddio. Awgrymwyd bod angen rhagor o wybodaeth ar randdeiliaid i allu ymateb i'r mater hwn yn llawn.

Awgrymodd tri o'r ymatebwyr mai'r dull mwyaf effeithiol fyddai ei gwneud yn ofynnol i ffermydd unigol ddadansoddi tail er mwyn pennu faint o nitrogen oedd ar gael yn hawdd. Roedd un ymatebwr yn credu y byddai ffigur sydd llawer agosach at gyfanswm y Nitrogen yn y tail yn fwy priodol, ac awgrymodd un arall y dylai'r gwerthoedd gymharu'n fwy â'r rhai a ddefnyddir mewn gwledydd â diwydiannau twristiaeth mynyddig llwyddiannus.

**Cwestiwn 15 – A ydych o'r farn y dylid diweddaru'r gwerthoedd tail yn Atodlenni 1 a 33, pan fo digon o dystiolaeth i gefnogi'r newid hwnnw?**

DIM NEWID - 44

DYLID, OS OES TYSTIOLAETH WYDDONOL I GEFNOGI HYNNY - 113

HEB DDEALL Y CWESTIWN - 6

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â newid gwerthoedd tail os oes tystiolaeth wyddonol i gefnogi hynny. Roedd y rhai sy'n gwrthwynebu unrhyw newid i'r gwerthoedd yn dadlau y gellid peri dryswch ac anawsterau o ran cadw cofnodion, a fyddai'n arwain at ddiffyg cydymffurfio anfwriadol. Ystyriwyd bod gwell arweiniad a gwell ymwybyddiaeth o'r arweiniad yn hanfodol er mwyn gwella prosesau rheoli maethynnau, gan gynnwys hyrwyddo gwell Cod Ymarfer Amaethyddol Da.

Diweddarwyd gwerthoedd ar gyfer slyri gwartheg a moch ddiwethaf yn 2013. Dywedodd un ymatebwr y gallai eu newid eto bedair blynedd yn ddiweddarach beri rhagor o ddryswch. Ychwanegwyd mai amcangyfrif gorau yn unig yw'r gwerthoedd yn y rheoliadau, sydd wedi'u seilio ar nifer bach o astudiaethau, ac y bydd y maint gwirioneddol sydd ar gael ac a ddefnyddir gan y cnydau yn amrywio'n sylweddol rhwng un fferm a'r llall.

Credwyd bod defnyddio gwerthoedd safonol yn rhoi hyder amhriodol i'r rhai sy'n llunio polisïau mewn faint o reolaeth y mae'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau yn ei rhoi. Awgrymwyd y gellid defnyddio ystod, sy'n ymgorffori'r gwerthoedd presennol a'r rhai arfaethedig newydd, a rhoi nodyn i esbonio o dan ba amodau y gellid defnyddio'r gwerthoedd uwch neu is, ond dylid derbyn bod yr holl werthoedd yn gywir am o leiaf pedair blynedd nesaf y Rhaglen Weithredu newydd. Amlygodd yr un ymatebwr bod mantais i ffermwyr yn sgil cael defnyddio'u gwerthoedd mesuredig eu hunain yn hytrach na dibynnu ar werthoedd safonol.

Roedd y rhai sy'n anghytuno â'r cynnig yn pryderu ynglŷn â'r diffyg tystiolaeth dros newid.

**Cwestiwn 16 – A ydych yn cytuno bod y rheolau presennol ynglŷn â llethrau yn ymdrin yn ddigonol â pherygl llygredd?**

CADARNHAOL - 76

NEGYDDOL - 123

Nododd y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn fod y rheolau presennol yn ddigonol i leihau'r perygl cymaint â phosibl. Roedd dau ymatebwr o'r farn bod pwysigrwydd amser ceisiadau yn bwysicach ar dir llethrog ac y byddai rhagor o arweiniad ar arferion gorau yn fwy defnyddiol na rheolau ychwanegol. Awgrymodd un arall fod y rheolau yn ddigonol ond ei bod yn bosibl bod cydymffurfio â nhw yn broblem. Roedd un ymatebwr yn falch o'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd amodau tywydd amrywiol a'u heffaith ar amodau'r ddaear ac roedd yn credu y dylid mabwysiadu'r egwyddor hon yn ehangach yn y Rhaglen Weithredu.

Mae'r rhai a ymatebodd yn negyddol o'r farn bod angen rhagor o reolau ar lethrau er mwyn atal llygredd dŵr. Roedd rhai yn pryderu bod y risgiau yn sgil taenu slyri ar lethrau serth, yn arbennig mewn ardaloedd lle ceir glawiad trwm, yn rhy fawr ac y dylid cyflwyno rheolau ychwanegol er mwyn ymdrin â'r materion hyn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid ystyried amrywiaeth ehangach o ffactorau wrth bennu'r effaith ar y llethrau. Roedd un ymatebwr yn credu na ddylid ei ddefnyddio o gwbl ar lethrau oni bai y caiff ei daenu ar wair, oherwydd y byddai llai o ddŵr ffo bryd hynny.

**Cwestiwn 17 – Os nad ydych, pam ddim, a pha reolau y dylid eu cyflwyno er mwyn ymdrin â'r risg yn eich barn chi?**

RHEOLAU PRESENNOL YN DDIGONOL - 12

WEDI CYFLWYNO SYNIADAU - 124

ARALL - 1

Roedd ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi ystyriaeth i ffactorau eraill wrth bennu'r risg, gan gynnwys gorchudd daear, agosatrwydd i ddŵr wyneb, amodau tywydd, math o bridd a'i gyflwr, cysylltedd a phresenoldeb draeniau tir. Gwnaed sylw hefyd na ddylid caniatáu taenu tail organig pan fo'r pridd yn ddwrlawn.

Awgrymodd dau ymatebwr y bydd llawer o'r risg yn benodol i safleoedd ac y gellid ei dadansoddi trwy ddefnyddio Sci Map (Prifysgol Durham) i gefnogi neu wrthod defnyddio neu storio tail (www.scimap.org.uk/), ac awgrymodd un arall y gallai egluro'r geiriad atal rhai o'r camgymeriadau rhag digwydd.

Pwysleisiodd deuddeng o'r ymatebwyr eu cred bod y rheolau presennol yn ddigonol. Mynegodd un ymatebwr farn, oherwydd y gormodedd o reoliadau beichus, y dylid rhoi'r un ystyriaeth i gael gwared ar ofynion diangen ag a roddir i ychwanegu mesurau. Byddai hyn yn sicrhau bod holl ofynion y Rhaglen Weithredu yn addas at eu diben ac yn gyson â'r Adolygiad Hwyluso'r Drefn.

Roedd dau o'r ymatebwyr o'r farn y byddai troi cefn ar slyri a newid i ddefnyddio siediau gorwedd dan wellt i greu tail buarth, sy'n gynnyrch solet, yn lleihau lefelau llygredd. Roedd rhai ymgyngoreion yn pryderu ynglŷn ag unrhyw ofyniad a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwr fesur graddiant llethr.

**Cwestiwn 18 – A ydych yn cytuno â'r cynnig i egluro geiriad y rheoliadau?**

CADARNHAOL - 146

NEGYDDOL - 22

NIWTRAL - 8

ARALL - 4

Awgrymodd llawer o'r bobl a gytunodd i newid y rheoliadau er mwyn darparu gwell eglurhad o'r gofyniad i beidio â thaenu ar dir rhewedig, y dylid ei gwneud yn gliriach bod y gofyniad yn cynnwys pob math o wrtaith. Nodwyd y gall fod elfen o farn bersonol o ran pa un a yw'r ddaear wedi bod rhewedig am fwy na 12 awr yn ystod y 24 blaenorol. Nododd un ymatebwr bwysigrwydd rhoi digon o arweiniad. Cefnogodd rhanddeiliad arall y newidiadau i wella dealltwriaeth o'r rheoliadau ond roedd yna bryder y gallai tirfeddianwyr ei chael yn anodd profi eu bod yn cydymffurfio â'r newid arfaethedig i'r geiriad.

Awgrymodd un ymatebwr y geiriau amgen "mae'n rhaid peidio â thaenu gwrtaith nitrogen ar bridd sydd wedi'i orchuddio ag eira neu wedi'i rewi ar yr wyneb neu o dan yr wyneb" oherwydd cred bod y geiriad arfaethedig yn annigonol. Cytunodd un rhanddeiliad â'r eglurhad i'r geiriad yn y rheoliadau ond dywedodd y dylai unrhyw reoliadau fod yn gam olaf.

Cafwyd ymateb a oedd yn holi pa un a fyddai “ar yr wyneb neu o dan yr wyneb” yn ddigon eglur. Credwyd na fyddai hyn yn rhoi’r sicrwydd sydd ei angen ar ffermwyr i asesu a ydyn nhw’n cael taenu tail. Pe byddai’r diffiniad hwn yn cael ei ddefnyddio, awgrymwyd y byddai angen arweiniad i helpu ffermwyr i ddeall ar ba ddyfnder y dylen nhw asesu’r pridd cyn parhau i daenu tail.

Dywedodd un ymatebwr fod amgylchiadau yn ystod gaeafau arbennig o wlyb, pan na ellir gwagio’r stôr slyri heblaw yn ystod cyfnod o rew. Dylai fod gallu yn y rheoliadau i lacio’r rheol hon dan amgylchiadau eithriadol.

Gwrthwynebodd nifer o’r ymatebwyr i’r newid oherwydd eu bod o’r farn y byddai’n cynyddu biwrocratiaeth oherwydd yr angen i gadw mwy o gofnodion a rheolau ychwanegol. Fodd bynnag, eglurodd un ymatebwr y byddai’n cefnogi’r newid hwn pe byddai’n symleiddio’r rheoliadau ac yn lleihau’r fiwrocratiaeth.

Gofynnodd un a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig pa mor bell o dan yr wyneb y byddai geiriad y rheoliadau yn berthnasol a sut y dylai rheolwyr tir bennu pa un a yw’r ddaear yn rhewedig o dan yr wyneb ai peidio. Amlygodd hefyd fod ffermwyr yn gyfarwydd â’r geiriad presennol.

Amlygodd un ymateb nad oedd unrhyw wybodaeth am sut y byddai disgwyl i ffermwyr ddangos eu bod yn cydymffurfio â’r newid. Yn yr un ymateb ystyriwyd bod y Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau eisoes yn rheoliad hynod gymhleth a biwrocratig, sy’n arwain at lawer iawn o dramgwyddo o’i gymharu ag ardaloedd Parthau Perygl Nitradau mewn rhannau eraill o’r DU. Nodwyd y dylid derbyn y newidiadau i’r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau ar yr egwyddor ei bod yn lleihau ac yn symleiddio’r baich adrodd ar ffermwyr yn hytrach na’i gynyddu. Gofynnwyd hefyd i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth o’r risgiau sy’n gysylltiedig â thaenu ar dir rhewedig gwastad.

Nododd un ymatebwr fod buddion i daenu ar dir rhewedig o ran osgoi cywasgu’r pridd a dylid ystyried hyn yn gyfaddawd.

**Cwestiwn 19 – A ydych yn cytuno â’r syniad o fabwysiadu cyfyngiad ar gyfer y fferm gyfan?**

CADARNHAOL – 146

NEGYDDOL - 52

ARALL - 6

Roedd deg ymatebwr yn anghytuno â’r cynnig ac roedd 13 yn credu na ddylid dynodi eu hardal yn barth perygl nitradau o gwbl, gan nodi bod y ffermydd yn yr ardal yn cadw at y Cod Ymarfer Amaethyddol Da beth bynnag.

Nododd dau ymatebwr pan fo ffermydd ar dir sy’n croesi ffin parth perygl nitradau, cânt eu rheoleiddio fel uned gyfan, a’r canlyniad tebygol fyddai cynyddu symudiadau slyri i ardaloedd y fferm sydd y tu allan i ffin y parth perygl nitradau. Nododd ymgyngoreion fod hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd tua’r gorllewin o Gleddau Wen, lle gallai nentydd sy’n arwain at yr arfordir gludo dŵr halogedig i’w gollyngfa ac o bosibl y traeth ac ardaloedd ymdrochi. At ei gilydd, credwyd na ddylid rhoi unrhyw gyfyngiadau ar yr ardal y tu allan i ffin

y parth perygl nitradau pan fo ffermydd wedi'u rhannu gan y ffin, felly nid oeddent yn cytuno â chyfyngiad fferm gyfan. Mewn 4 ymateb arall cafwyd gwrthwynebiad i'r cynnig oherwydd byddai slyri'n cael ei symud allan o'r parthau perygl nitradau a byddai hyn yn niweidiol i'r amgylchedd mewn ardaloedd arall, ac yn arwain at risg bosibl o dagfeydd traffig a difrod i'r ffyrdd yn sgil y cerbydau mawr.

Cododd nifer o ymatebion a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig fod terfynau ar ddefnyddio nitrogen yn amherthnasol gan fod y tymor tyfu gwair yn hirach yng ngorllewin Cymru, a defnyddir mwy o nitrogen nag mewn hinsoddau Ewropeaidd oerach.

Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y byddai'n annheg ar ffermydd sydd â rhan fach o'r tir o fewn y parth perygl nitradau i orfodi cyfyngiad fferm gyfan.

Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r cyfyngiad gyfeirio at y galw gan y cnydau sy'n cael eu tyfu yn hytrach na chyfyngiad blynyddol o 250kg o nitrogen ni waeth pa gnydau a gaiff eu tyfu. Rhoddwyd enghraifft o ryg porthi. Os caiff hwn ei ddrilio yn yr hydref a'i gynaeafu ym mis Ebrill, ac yna bod indrawn yn cael ei ddrilio yn yr un caeau tua diwedd mis Ebrill a'i gynaeafu fis Medi/Hydref, ac yna bod gwenith yn cael ei ddrilio yr hydref hwnnw, byddai cyfyngiad o 250kg yn rhy gyfyngol. Mae'r nitrogen a'r deunydd organig sydd ei angen ar y cnwd lawer uwch na 250kg wrth dyfu cnydau lluosog.

Roedd un ymatebwr o'r farn na ddylai fod angen i dir sydd o fewn parth perygl nitradau fabwysiadau cyfyngiad fferm gyfan oni bai bod tystiolaeth i ddangos bod gormod o nitrogen wedi'i ddefnyddio y tu allan i'r parth perygl nitradau. Dadleuwyd y byddai gorfodi cyfyngiad fferm gyfan yn cynyddu'r baich ariannol ar y ffermydd hynny ac yn arwain at y risg y bydd rhagor o ddryswch pan fo ffermydd yn amrywio eu harwynebedd tir bob blwyddyn. Er enghraifft, mae rhai ffermydd yn dechrau tenantiaethau neu drefniadau pori byrdymor, a gall arwynebedd y rhain amrywio o un flwyddyn i'r llall.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan bobl a oedd yn cytuno â'r cynnig yn nodi'n syml eu bod yn cytuno. Cynigiodd un ymatebwr fod angen ymdrin yn effeithiol â ffermydd neu ddaliadau â thir y tu fewn a'r tu allan i barthau perygl nitradau, yn benodol er mwyn pennu cyfyngiad fferm gyfan at ddibenion Rheoliad 12. Fodd bynnag, ystyriwyd hefyd bod canlyniadau negyddol.

At ddiben cyfrifo'r gofyniad storio slyri i gydymffurfio â Rheoliad 35, nodwyd y gallai'r cynnig fod yn anfanteisiol i'r ffermydd hynny lle mae cyfran sylweddol o'r tir y tu allan i barthau perygl nitradau. Ymddengys hefyd ei fod yn cymhlethu cyfrifiadau storio slyri. Yn hytrach, awgrymwyd y dylid rhesymoli gofynion rheoliadau'r parthau perygl nitradau a'r rheoliadau storio slyri (SSOTA), sy'n defnyddio gwahanol gyfrifiadau glawiad ar hyn o bryd, yn ogystal â gwahanol gyfnodau ar gyfer storio gofynnol. Er bod y gwahaniaethau hyn yn cyflwyno gwahaniaethau cymharol fach yn bennaf o ran gofynion storio ar y cyfan, mae'r gwahaniaethau rhwng dulliau cyfrifo yn peri dryswch.

Hefyd, cyn ymrwymo i newid gofynion y SSOTA yn unol â gofynion y parthau perygl nitradau, fel y cynigir, codwyd problem bosibl. Ar hyn o bryd, mae'r SSOTA yn cynnwys gofyniad i ymdrin â glawiad tebygol, wedi'i ddehongli fel cyfnod cofnodi o bum mlynedd, tra bod gweithrediad y parthau perygl nitradau yn defnyddio glawiad cyfartalog. Y pwyslais ar weithrediad y parthau perygl nitradau yw bod Rheoliad 35 (3) yn cyfeirio at "...unrhyw lawiad

sy’n mynd i mewn i’r cynhwysydd...”. Felly nid yw defnyddio glawiad cyfartalog i’w gweld yn briodol, yn arbennig gan mai’r bwriad a nodir yn yr ymgynghoriad yw defnyddio arferion mwy cynaliadwy.

Amlygodd un ymatebwr fod dynodiadau ar wahân o barthau perygl nitradau yn debygol o eithrio ardaloedd lle ceir problemau mawr ac felly ni fyddai’n ymdrin yn ddigonol â’r problemau helaeth sy’n codi yn sgil llygredd amaethyddol. Dywedodd hefyd fod y rhan fwyaf o ardaloedd lle mae llygredd fferm wedi effeithio’n ddifrifol arnynt, y tu allan i’r ardaloedd a fyddai wedi’u dynodi. Gwaethygir y broblem hon gan rai ffermydd sy’n taenu gormod o dail da byw ar y tir y tu allan i’r parth perygl nitradau er mwyn parhau i gydymffurfio â’r cyfyngiad o 170kg/N/ha, sy’n berthnasol i’r tir o fewn ffin y parth perygl nitradau. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, mae hyn yn cynyddu perygl llygredd y tu allan i’r parthau perygl nitradau ac yn arwain at dramgwyddo yn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da pan ddefnyddir mwy na’r cyfyngiadau kg/N/ha.

**Cwestiwn 20 – Os ydych, a ydym ni wedi nodi’r dull cywir o bennu’r cyfyngiad?**

CADARNHAOL - 19

NEGYDDOL - 22

NIWTRAL - 3

Pwysleisiodd 22 o'r ymatebwyr i’r cwestiwn hwn eu gwrthwynebiad i’r prif gynnig. Esboniodd un yr effaith ar ei fusnes, daliad o 250 erw sy’n gweithredu system ffermio llaeth ar y gwair â 180 o fuchod llaeth a nifer tebyg o ddilynwyr. Gweithredir dau floc lloia yn y gwanwyn a’r hydref ac ystyrir bod y gallu i dyfu gwair drwy’r flwyddyn gron yn hanfodol i’r busnes.

Esboniwyd y byddai’r cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu slyri a gwrtaith yn niweidiol iawn i’r busnes oherwydd caiff slyri ei daenu yn yr hydref ac ar ddechrau’r gaeaf fel arfer, yn dibynnu ar amodau’r tywydd a’r tir. Byddai effeithiau rheolau’r parthau perygl nitradau yn cyfyngu ar allu’r fferm i gynhyrchu llaeth.

Hefyd, mae’r storfa slyri presennol ar y fferm yn ddigonol ar gyfer dau fis, felly byddai gofynion storio gwerth 5 mis o slyri yn mynnu buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar adeg pan fu pris llaeth yn isel iawn ers dwy flynedd. Nodwyd bod anawsterau benthyca yn yr hinsawdd bresennol, a chynllunio, a gwasanaethau cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ffactorau hefyd.

Roedd y rhai sy’n cefnogi’r cynnig ac un a oedd yn ei erbyn yn credu bod y dull cyfrifo arfaethedig yn ymarferol. Dywedodd un ymatebwr er ei fod yn gallu gweld buddion mabwysiadu cyfyngiad storio y parthau perygl nitradau ar gyfer daliadau sy’n croesi ffiniau parthau, cydnabu hefyd ei bod yn bosibl y bydd yn well gan rai ffermwyr dderbyn y dull pan fônt yn bodloni’r gofynion eisoes. Roedden nhw’n cefnogi barn Llywodraeth Cymru, felly, i beidio â gorfodi gofyniad storio ffermydd y parthau perygl nitradau ar y fferm gyfan.

Nododd dau ymatebwr y byddai dull tiriogaeth gyfan yn negyddu’r angen i sefydlu cyfyngiad fferm gyfan. Dywedodd un arall y byddai angen i bawb ddeall pa bynnag dull a fabwysiedir, neu ni fyddai’r amcan yn cael ei fodloni.

**Cwestiwn 21 - Os nad ydych yn cytuno, a ydych yn meddwl y dylid defnyddio dull arall?**

CADARNHAOL - 44

NEGYDDOL - 5

NIWTRAL – 2

Roedd bron pob un a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o'r farn y dylid defnyddio dull arall, dim ond pum gwrthwynebiad a gafwyd i'r farn hon. Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn credu bod y Cod Ymarfer Amaethyddol Da yn ddigon gan ei fod yn caniatáu ar gyfer yr amrywio rhwng amgylcheddau ffermio. Roedd llawer o'r 44 o ymatebwyr a oedd yn ffafrio dull arall yn dadlau y dylid llunio asesiad wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n rhoi ystyriaeth i hyd y tymor tyfu/amodau'r ddaear a'r defnydd o nitrogen, gan nodi bod gan bob fferm wahanol arferion ffermio a gwahanol fath o bridd, felly mae angen dull rhagnodol ar gyfer pob fferm unigol. Awgrymodd un ymateb y dylai Canllawiau Rheoli Maethynnau yr AHDB (Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth) (RB209) a'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da ffurfio'r safonau priodol.

Cynigiodd un ymatebwr y dylai'r dull amgen fynd yn ôl daliadau organig ardystiedig â chyfyngiad o 170 kg/N/ha y fferm, a chyfyngiad uchaf o 240 kg/N/ha y cae, neu os gellir profi bod angen mwy ar gnwd arbennig (tomatos, gwenith ac ati) gellid defnyddio mwy na hyn. Mae risg isel i hyn os caiff ei arolygu'n flynyddol ac os cofnodir cydbwysedd maethynnau i brofi nad oes mwy o drwytholchi wedi digwydd, er gwaethaf defnydd llawer uwch mewn cae neu dŷ gwydr penodol. Awgrymwyd hefyd y dylai cyrff rheoleiddio weithio gyda ffermwyr unigol i roi ystyriaeth i amodau tywydd, pridd a hinsawdd benodol.

**Cwestiwn 22 – A ydych yn cytuno â'r dull cymesur a gaiff ei ddisgrifio ar gyfer cyfrifo storfeydd slyri?**

CADARNHAOL - 40

NEGYDDOL - 13

ARALL - 129

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid dull Cymru gyfan o fynd i'r afael â llygredd nitradau, a fyddai'n dileu'r angen am fformiwlâu cymhleth o gyfrifo storfeydd slyri ar gyfer ffermydd sy'n rhannol mewn parth perygl nitradau. Byddai hyn hefyd yn dileu materion cystadleuol.

Yn yr un modd, roedd un ymatebwr nad oedd yn dymuno gweld parthau perygl nitradau tiriogaeth gyfan o'r farn bod y cynnig yn rhy gymhleth ac y dylai gofyniad capasiti storio y parthau perygl nitradau gynnwys y fferm gyfan os yw rhan ohoni mewn parth perygl nitradau, a hynny er mwyn gwneud y rheoliadau yn fwy syml o lawer.

Roedd nifer bach o randdeiliaid o'r farn nad yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu gofynion storio yn addas at ei diben, megis y cysyniad o unedau da byw, oherwydd natur amrywiol rhywogaethau buchol a'r ffaith na ellir dibynnu ar ragolygon y tywydd.

Nododd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig ac yn ffafrio dull tiriogaeth gyfan y broblem fydd gan ffermwyr i gyflawni'r capasiti storio gofynnol a chost ei weithredu. Awgrymwyd gan rai o'r ymatebwyr hyn y byddai angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynllun grant sylweddol er mwyn i ffermwyr allu cadw eu busnesau. Yn benodol, nodwyd

bod materion cynllunio yn bryder, a’r anawsterau i ffermwyr sy’n denantiaid pan nad yw landlordiaid yn fodlon neu’n gallu darparu’r cyllid ar gyfer cyfleusterau storio slyri newydd. Nodwyd bod ffactorau megis cyfyngiadau TB a lefelau anarferol o lawiad yn bryderon hefyd yn yr ymatebion.

Ymatebodd un fferm, os oes angen i ffermwyr wella’r cyfleusterau storio slyri, byddai’n fyrweledol iddyn nhw beidio â bodloni gofynion capasiti parthau perygl nitradau, gan nodi pan fydd fferm wedi gweithredu â stôr slyri sy’n cydymffurfio â gofynion parthau perygl nitradau, ni fyddai’n dymuno gweithredu mewn modd arall. Roedd y datganiad hwn hefyd yn ystyried bod angen darparu cymorth ariannol ar gyfer y cyfleusterau storio hyn a bod angen cynllunio.

Nododd llawer o’r ymatebion, gan y rhai a oedd o blaid parthau perygl nitradau tiriogaeth gyfan a'r rhai a oedd yn ffafrio dynodiadau ar wahân, fod pryderon y gallai mabwysiadu’r cynnig arwain at allforio slyri i ardaloedd nad ydynt mewn parthau perygl nitradau.

Awgrymodd un ymateb mai’r dybiaeth wrth ddatblygu’r cynnig mai cyfleusterau storio slyri mawr a chyfnodau gwaharddedig yw’r ateb, ond nid yw’r dystiolaeth yn cefnogi’r casgliad hwn.

**Cwestiwn 23 – Os nad ydych, sut ydych chi’n awgrymu y dylid egluro’r rheolau?**

PARTH PERYGL NITRADAU CYMRU GYFAN - 124

CYLLID - 1

ANGEN TYSTIOLAETH - 5

ARALL - 7

Roedd y mwyafrif o’r ymgyngoreion yn ffafrio dull tiriogaeth gyfan o barthau perygl nitradau, a dywedodd bron pob un o’r rhain mai lleihau cymhlethdod y rheoliadau yw’r rheswm dros hyn.

Roedd rhai o’r farn y dylai’r cynnig fod wedi’i seilio ar dystiolaeth a risg wirioneddol, gan gyfeirio at y diffyg tystiolaeth i gefnogi’r cynnig. Yn yr un modd, dadleuodd un rhanddeiliad ei fod yn aneglur yn yr ymgynghoriad a yw’r newidiadau wedi’u cynnig mewn ymateb i fater y sylwyd arno neu risg ddamcaniaethol. Nodwyd os caiff tir y tu allan i barth perygl nitradau ei lwytho’n ormodol, byddai effaith andwyol amlwg ar ansawdd y dŵr yn y tir o amgylch yr ardaloedd dynodedig. Amlygodd y rhanddeiliad na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gyda'r ymgynghoriad i awgrymu hyn, felly mae’r risg yn debygol o fod yn un ganfyddedig neu ddamcaniaethol. Ni chefnogwyd y cynnig am y rheswm hwn.

Ymatebodd un ymgynghorai y bydd parthau perygl nitradau ychwanegol yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, ac yn achosi difrod posibl i ardaloedd arfordirol a thwristiaeth.

**Cwestiwn 24 Sut ydych chi’n meddwl y bydd y newidiadau arfaethedig i’r Rhaglen Weithredu yn effeithio ar ddulliau rheoli ymarferol busnesau fferm arferol yn y parthau newydd neu’r parthau presennol?**

Cododd y rhan fwyaf o'r bobl hynny a ymatebodd yr angen am fwy o fuddsoddiad mewn cyfleusterau a rheoli maethynnau, p'un a oeddynt o blaid neu yn erbyn yr egwyddor o Barthau Perygl Nitradau. Yn hynny o beth, roeddynt o'r farn mai'r sefyllfa economaidd bresennol a'r enillion isel ar gynnyrch fferm oedd y prif resymau y dylid rhoi cymorth ariannol i ffermwyr i dalu costau.

Cynigiwyd ateb gwell, hirdymor lle byddai ffermwyr yn cael enillion ar eu cynnyrch sy'n fwy cytbwys â'r costau cynhyrchu, gan gynnwys costau bodloni'r safonau amgylcheddol gofynnol. Ar hyn o bryd, mae sectorau eraill fel cyflenwi dŵr, pysgodfeydd a chadwraeth yn dioddef canlyniadau a chostau cysylltiedig effeithiau amaeth. Credwyd y byddai'r rhaglen weithredu mewn amgylchiadau o'r fath yn creu sector amaeth mwy cydnerth a chynaliadwy yng Nghymru.

Nodwyd effeithiau ehangach polisïau sy'n effeithio ar ddichonoldeb busnesau fferm yn fanwl yn yr ymatebion. Mae busnesau fferm yn sail i fywiogrwydd llawer o ardaloedd gwledig a dangoswyd bod pob busnes fferm yn masnachu â rhwng 40 ac 80 o fusnesau lleol eraill, â phob un ohonynt yn ffynonellau pwysig o gyflogaeth. Mae gan fusnesau contractio amaethyddol bryderon y bydd yn rhaid iddynt ddiswyddo staff yn ystod y cyfnodau gwaharddedig ac roeddynt yn pryderu na fyddent yn gallu recriwtio cyflogeion â sgiliau eto ar ddiwedd y cyfnod gwaharddedig, gan y byddant yn chwilio am gyflogaeth arall ac y gallent adael yr ardal.

Gwnaeth busnesau fferm unigol a ymatebodd i'r ymgynghoriad nodi'r costau ariannol. Bydd y gofyniad i storio gwerth pum mis o slyri i un busnes yn golygu y byddai'n rhaid buddsoddi mewn lagŵn slyri newydd er mwyn cydymffurfio â rheolau Parthau Perygl Nitradau. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost hon dros £100,000 ac yn dod ar adeg pan nad oes unrhyw gyfalaf yn weddill yn y busnes yn sgil blynyddoedd o brisiau isel am laeth. Adroddodd fferm arall mai dim ond digon o le i storio slyri am ddau fis a oedd ganddynt, yn dibynnu ar lefel y glaw. Byddai gofynion y Parthau Perygl Nitradau i gadw slyri am bum mis yn golygu y byddai'n rhaid i'r fferm wario o leiaf £50,000 i adeiladu lagŵn slyri newydd, a byddai cymaint â hyn o fuddsoddiad yn anodd o ystyried y prisiau isel iawn a gafwyd am laeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Nododd un arall, er gwaethaf buddsoddi symiau mawr dros lawer o flynyddoedd y byddai'r rhaglen weithredu arfaethedig yn golygu y byddai angen 50% yn fwy o le storio a chost cyfalaf o ryw £90,000. Dim ond lle i gadw gwerth tri mis o slyri sydd gan un busnes ar hyn o bryd. Maent yn nodi y byddai'r gofyniad i gynyddu hwnnw i gadw gwerth pum mis o slyri yn costio £90,000. Nododd un fferm bod ganddynt safonau uchel ond mai dim ond digon o le storio ar gyfer 6-8 wythnos a oedd ganddynt, yn dibynnu ar y tywydd, felly os caiff y cynigion eu gweithredu, byddai'n rhaid i'r fferm ystyried buddsoddi rhwng £50 a £100,000 dim ond i fodloni'r rheoliadau storio.

Nodwyd bod gallu busnesau i weithredu'n ddigon hyblyg i addasu at y tywydd, y pridd a'r amodau tyfu yn broblem sylweddol. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y byddai'r cynigion yn gorfodi ffermwyr i wneud tasgau yn groes i'r hyn y maent yn credu sydd orau. Byddai angen troi tir ar adegau amhriodol a byddai costau cysylltiedig ar gyfer cnydau na fyddai o bosibl yn tyfu nac o fudd i'r pridd, gan gywasgu'r calendr ffermio drwy orfodi cyfnodau a fyddai'n ychwanegu costau llafur ar adeg pan fo elw eisoes yn isel.

Nodwyd atebion posibl i'r materion hyn. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y dylai ffermwyr gael eu caniatáu i reoli eu tir yn ôl arferion gorau a'r tywydd/amodau pridd/defnydd tir gorau. Gallai ffermydd fod yn rhan o gynllun wrthbwyso maethynnau y gellid ei archwilio a gellid casglu data o'r holl ffermydd i ddangos lefel y trwytholchi maethynnau sydd wedi ei atal bob blwyddyn gan weithredu dulliau lliniaru ar y fferm fel y cymeradwywyd gan y corff gorfodi.

Adroddwyd bod y cyfyngiad ar y nitrogen y gellid ei ddefnyddio o 170kg N/hectar yn peri pryder gan fod potensial i hynny gael effaith sylweddol ar gynnyrch y cnydau. Byddai hefyd yn broblem i'r rhai hynny sy'n gwerthu silwair yn rhan o'u busnes ac fe allai o bosibl ei gwneud yn annichonadwy i dyfu grawnfwydydd ar rai daliadau. Ar ben hynny, bydd y cyfyngiadau ar ddefnyddio N ar laswelltir yn effeithio ar dyfiant y glaswellt a gallai arwain at leihad yn nifer y stoc er mwyn llwyddo i gydymffurfio, a fydd yn ei dro yn effeithio ar broffidioldeb.

Ystyriwyd y cyfnod gwaharddedig yn niweidiol i gynhyrchiant gan y byddai aros tan yn hwyr yn y gwanwyn i daenu tail da byw yn halogi tyfiant glaswellt yn y gwanwyn, gan atal y gallu i ddefnyddio'r glaswellt gorau yn llawn ar gyfer pori a silwair. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y byddai hyn yn cael effaith negyddol ddifrifol ar fusnesau cig eidion sy'n dibynnu ar laswellt o ansawdd da i gynhyrchu'n effeithlon, ac yn y pen draw, byddai'n effeithio ar broffidioldeb busnesau. Adroddwyd y byddai atal y defnydd o wrtaith ar laswellt dros gyfnod y gaeaf yn lleihau cynnyrch y cnydau ym mis Chwefror/Mawrth a fydd yn niweidio systemau sy'n seiliedig ar bori ar yr adeg honno. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu hefyd na fyddai contractwyr ar gael i daenu slyri yn gynnar yn y gwanwyn gan y byddai'r galw yn anarferol o uchel.

Nodwyd bod gwaith papur, yn arbennig y gosb am fân faterion diffyg cydymffurfio, yn broblem hefyd. Mynegwyd barn bod hyn yn mynd yn groes i amcan Llywodraeth Cymru i leihau biwrocratiaeth.

Gofynnwyd i ystyriaeth gael ei rhoi i gyfyngiadau TB wrth wneud unrhyw benderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad. Nodwyd y bydd y cynnydd mwyaf mewn dynodiadau parthau perygl nitradau newydd i'w weld yn Sir Benfro, gan gynnwys yr ardal a nodir o dan y gorchymyn TB yn ardal lle ceir llawer o achosion o TB. Bydd ffermwyr yn yr ardal hon felly yn dioddef effeithiau cyfansawdd y rheoliadau sy'n ymwneud â gofynion rheoli TB mwy cyfyngol a'r rhai sy'n ymwneud â chydymffurfio â rheoliadau'r parthau perygl nitradau.

Nodwyd ystyriaethau amgylcheddol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai o'r farn y byddai cyfyngiadau taenu yn arwain at bigynnau mewn defnyddio tail cyn ac ar ôl y cyfnodau gwaharddedig. Nododd eraill y gall busnesau fferm droi at aeafu y tu allan er mwyn osgoi'r angen i gynyddu'r capasiti storio slyri, a allai arwain at ddifrod i briddoedd a dŵr yn sgil sathru.

Roedd cyflwr cyfleusterau storio slyri yng Nghymru yn bryder mawr i lawer o randdeiliaid. Dywedwyd bod y sefyllfa yn amlwg yn annerbyniol a'i bod yn cyflwyno risg sylweddol i'r amgylchedd. Cyfeiriwyd at ddigwyddiadau llygredd fferm Categori 1 a welwyd yn ddiweddar, megis hynny a ddigwyddodd ar Afon Teifi a arweiniodd at ddifrod amgylcheddol difrifol a helaeth, wrth alw am fuddsoddiad mawr brys i wella cyfleusterau a phrosesau rheoli gwastraff fferm.

**Cwestiwn 25 Yn y dyfodol, sut ddylai cynllunio a rheoli adnoddau naturiol gael ei ystyried yn ddewis amgen i fynd i'r afael â llygredd nitradau?**

Cafwyd nifer o ymatebion cynhwysfawr i'r cwestiwn hwn gan nifer o bobl â gwahanol safbwyntiau.

Roedd gorfodi yn bwnc trafod mawr yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu am y modd y byddai unrhyw reoliadau newydd yn cael eu gorfodi gan fod hynny'n fater pwysig. Mynegodd un ymatebwr nad yw'r rheoliadau Parthau Perygl Nitradau cyfredol yn cael eu gorfodi ac eithrio, yn hytrach na bod camau cyson yn cael eu cymryd i sicrhau bod ffermydd sy'n storio slyri yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd dau ymatebwr o'r farn y dylai fod rhagor o bwerau ar gyfer monitro a gorfodi, a chosbau uwch am ddiffyg cydymffurfio. Fodd bynnag, roedd un arall o'r farn y dylai erlyn fod yn ddewis olaf, i weithredu fel rhwystr pan fo cyngor wedi'i anwybyddu a chamau unioni heb eu cymryd.

Cwestiynwyd yn helaeth, o ystyried y pwysau presennol ar gyllidebau yn Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, pa mor effeithiol y gellid gorfodi unrhyw reoliadau newydd, yn enwedig pe byddai Parthau Perygl Nitradau tiriogaeth gyfan yn cael eu mabwysiadu. I'r perwyl hwn, cafwyd y farn y dylai fod trefniant gweithio mwy cydlynol rhwng Timau Arolygu Cyfoeth Naturiol Cymru ac Arolygiaeth Wledig Cymru o ran storio slyri a silwair ar y fferm. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru a ddylai fod yn gallu dangos yn ymarferol sut y bydd yn gorfodi rheoliadau mwy llym.

Cafwyd sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn nodi gan fod amaeth a'r amgylchedd yn rhan o gylch gwaith un Gweinidog, y dylai fod yn ddigon ymarferol i'r ddau faes hwn gyd-fynd â'i gilydd mewn modd mwy blaengar.

Roedd ymatebwyr o'r farn hefyd bod dynodi Parthau Perygl Nitradau yn effeithio ar y sector amaethyddol yn unig, ac nad yw'r sector ond yn un elfen o'r hyn sy'n cyfrannu at broblemau llygredd dŵr. Dylid gwneud mwy felly i fynd i'r afael â diwydiannau eraill sy'n cyfrannu, yn hytrach na chwilio am enillion cyflym yn y diwydiant amaeth.

Roedd llawer o sylwadau yn nodi y dylai awdurdodau weithio gyda'r diwydiant ffermio i sefydlu atebion ymarferol i atal achosion o lygredd yn y dyfodol, yn hytrach na gweithredu camau gorfodi llymach. Nodwyd y farn y gellid gwneud hyn trwy roi addysg well ynghylch y gofynion rheoleiddiol, ynghyd â chanllawiau penodol ar y fferm. Mynegwyd y farn y dylai'r canllawiau hyn fod wedi'u haddasu'n benodol ar gyfer pob fferm unigol, gan fod y rhan fwyaf o fusnesau yn gweithredu mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n bosibl felly na fydd gwybodaeth gyffredinol ar gyfer pawb yn cyflawni unrhyw wahaniaeth mawr i'r sefyllfa bresennol. Awgrymwyd y gallai Cyswllt Ffermio symud o sylfaen codi ymwybyddiaeth fwy cyffredinol i fodel sy'n rhoi cyfle i ffermwyr ymchwilio i'r modd y gallant dargedu mesurau yn benodol i liniaru digwyddiadau posibl o lygredd.

Roedd ymatebwyr yn galw hefyd ar Lywodraeth Cymru i ystyried dulliau o gefnogi busnesau fferm i fonitro iechyd y pridd er mwyn ei reoli. Nodwyd nad oedd busnesau fferm yn blaenoriaethu iechyd y pridd gan fod elw yn gostwng a bod angen mynd i'r afael â hyn er mwyn gallu llwyddo i reoli maethynnau yn effeithlon.

Nodwyd un pwynt, sef bod y diwydiant yn drysu oherwydd nifer y sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o lunio, monitro a gorfodi deddfwriaeth luosog. Yn hytrach na hyn, dylid bod dull 'cydgrynhoi' sy'n lleihau camddealltwriaeth yn y diwydiant.

Mae Cynlluniau Rheoli Nitradau yn ymddangos yn aml yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nodwyd y farn y dylai rheoleiddwyr weithio'n agosach gyda busnesau fferm unigol i wneud yn siŵr bod cynlluniau yn addas at eu diben yn hytrach nag yn rhywbeth a gedwir yn eu ffeiliau rhag ofn iddynt gael eu harolygu.

Roedd rhai o'r farn y dylid ymchwilio i'r dull 'Ffermio Baner Las' sy'n cael ei ddatblygu gan ffermwyr i'w ddefnyddio ar fusnesau fferm eraill, nid o reidrwydd y rhai hynny sy'n gweithredu o fewn tiriogaethau Parthau Perygl Nitradau. Byddai mabwysiadu safon ar gyfer y diwydiant yn helpu i fynd i'r afael â'r sefyllfa nitradau heb yr angen i gynyddu tiriogaeth Parthau Perygl Nitradau.

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gyfeirio arian o'r Cynllun Datblygu Gwledig i fwy o fuddsoddiadau fferm er mwyn ymdrin â storio slyri. Byddai'r diwydiant yn llawer mwy parod i gydweithredu â rheoleiddwyr er mwyn gwella cyfleusterau ar y fferm pe byddai hyn yn digwydd. Fodd bynnag, i wrthbwyso hyn roedd rhai o'r farn nad oedd yn fodd da o fuddsoddi arian cyhoeddus i godi busnesau fferm i safonau'r rheoliadau ac y dylent fod yn gwneud hynny beth bynnag.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r pwyslais ar nitradau yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r problemau yn ein hamgylchedd naturiol. Roedd amonia a ffosffadau, er enghraifft, hefyd ar fai am gyflwr ein dŵr.

Adroddwyd bod angen i fusnesau fferm weithredu'n fwy cyfrifol gan eu bod yn honni eu bod yn warcheidwaid yr amgylchedd yn ogystal ag yn gynhyrchwyr bwyd. Mae'r dulliau y maent yn rheoli ein aer, pridd a dŵr yn parhau i fod yn hollbwysig i ganlyniadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Roedd ymatebwyr yn dadlau bod angen i unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth fod yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth gadarn ac mewn dull partneriaeth â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys ffermwyr y mae'r rheoliadau yn effeithio arnynt.

Roedd dau ymatebwr o'r farn y byddai defnyddio lleiniau clustogi a chreu a rheoli coetir ar y fferm yn helpu i atal dŵr ffo ac erydu pridd.

**Cwestiwn 26 Nid ydym o'r farn bod y polisi hwn yn effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg, nac y gellir ei ailffurfio neu ei ddiwygio er mwyn cael effeithiau cadarnhaol. Os ydych chi'n anghytuno, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y mater hwn.**

EFFAITH NEGYDDOL – 126
DIM EFFAITH – 121
ARALL - 4

Cafwyd ymateb cryf i'r cwestiwn hwn gan fod potensial y bydd y Rheoliadau Parthau Perygl Nitradau yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai cyflwyno Parth Perygl Nitradau tiriogaeth lawn yn arwain at leihad yn y defnydd o'r Gymraeg. Cyfiawnhawyd hyn gan y farn y bydd cynnydd mewn rheoliadau a chost i'r diwydiant yn creu colledion mewn swyddi yn rhanbarthau gwledig Cymru, a fydd mewn llawer o gymunedau yn lleihau nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg. Mae pryder y bydd ardaloedd gwledig yn dioddef diboblogi wrth i bobl chwilio am gyflogaeth mewn ardaloedd eraill.

Roedd rhai o'r ymgynghoreion o'r farn y byddai Parth Perygl Nitradau tiriogaeth gyfan o bosibl yn cael yr effaith fwyaf ar ffermydd teuluol bach, a fydd yn cael trafferthion o ran cydymffurfio â newid i'r rheoliadau. Y gred oedd bod y grŵp hwn yn cynrychioli'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ac felly byddai goblygiadau mwy i'r grŵp hwn.

Roedd un ymatebwr o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru adolygu effeithiolrwydd eu polisïau rheoli dŵr presennol yn ofalus gan fod llawer o ganlyniadau anfwriadol yn gysylltiedig â nhw. Roedd yr ymatebwr o'r farn y dylid rhoi rhagor o ffocws a phwyslais ar gefnogi'r cymunedau gwledig a'r economi yn hytrach na gweithredu pob Cyfarwyddeb Ewropeaidd.

Roedd pryderon hefyd y byddai effeithiau negyddol posibl ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at gyflawni 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Nododd ymatebwr arall y pwynt 'a yw llygredd yn wahanol os yw'r llygrwr yn siarad Cymraeg neu Saesneg?' Ni ddylai unrhyw newidiadau deddfwriaethol effeithio ar y Gymraeg felly. I'r gwrthwyneb, nodwyd sylw arall ei bod yn debygol o effeithio'n drwm ar bwysigrwydd y Gymraeg ac felly ei bod yn allweddol, cyn gwneud newidiadau i'r rheoliadau, bod yr asesiadau effaith angenrheidiol yn cael eu cynnal i atal unrhyw effeithiau ar y Gymraeg neu Hawliau Dynol.

Roedd un ymatebwr a oedd yn cytuno â'r cwestiwn o'r farn na ddylai iaith fod yn ffactor sylfaenol bwysig mewn unrhyw reoliadau newydd. Fodd bynnag, roedd yn hanfodol bod hunaniaeth Gymreig yn cael ei chynnal trwy ddŵr glân a chefn gwlad prydferth. Byddai Parth Perygl Nitradau tiriogaeth gyfan yn cyflawni hyn er y byddai'n gyfle hirdymor ond gallai greu problemau i rai busnesau fferm yn y tymor byr. Nodwyd hefyd bod angen i fusnesau fferm newid eu hagwedd ac yn hytrach na phwysleisio ar gynhyrchu, bod angen canolbwyntio mwy ar Dalu am Wasanaethau Ecosystemau i gynyddu safonau'r amgylchedd yng Nghymru, a fydd yn anorfod yn cynyddu'r hyn a gynigir i dwristiaid ac, fel sgil-gynnyrch, yn helpu'r economi wledig leol.

**ATODIAD A**

**RHESTR O YMATEBWYR**

Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Afonydd Cymru
Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru
Adran Gadwraeth Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Cymdeithas Tirfeddianwyr (CLA) Cymru
United Utilities
Ffermydd Coxlake
Dŵr Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Grŵp Cynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG) Cymru
Y Gymdeithas Eogiaid a Brithyll (Cymru)
Yr Ymddiriedolaeth Pysgota
Hybu Cig Cymru
Cymdeithas y Pridd
Cymdeithas Pysgota Tregaron
Cymdeithas Pysgota Gwent
Cymdeithas Pysgota Llanilar
Parciau Cenedlaethol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cymdeithas Genweirio Afon Nyfer
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a Puffin Produce
Osprey Fly Fishers Association
Cymdeithas Sir Benfro Owen Lewis
Y Cwmni cydweithredol
Cyngor Sir Penfro
Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Welsh Dee Trust
Menai Strait Fishery Order Management Association
Sea Trout Wales
Severn Rivers Trust
Planed (Org)
Clwb Pysgota Llanrwst
Ymddiriedoaleth Afonydd Teifi
Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
Tetramorium08
Dyfrffyrdd Aberdaugleddau
Ymddiriedolaeth Natur Cymru
Sefydliad Gwy ac Wysg